PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 433 | Tachwedd 2020










## Cofio




Ni heneiddiant hwy fel y ni a adawyd
Ni ddwg oed iddynt ludded
Na'r blynyddoedd gollfarn mwy
Pan elo'r haul i lawr
Ac ar wawr y bore





# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY cetmorgan@yahoo.co.uk 07966 510195]
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST – Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Dyddiad cau rhifyn Rhagfyr:** Rhagfyr 4 **Dyddiad cyhoeddi:** Rhagfyr 16

**TACHWEDD 18** Nos Fercher Rhuanedd Richards Cymdeithas y Penrhyn drwy Zoom am 7.30 Cysyllter â'r Ysgrifennydd am fanylion cysylltu Ceris.Gruffudd@gmail.com

**TACHWEDD 20** Nos Wener 'Cwis Hwyliog' dan ofal Ann ac Alan Wynne Jones, Cymdeithas Lenyddol y Garn, am 7.30 o'r gloch; cyfarfod dros Zoom – cysylltwch â'r ysgrifennydd i gael y manylion: marian_hughes@btinternet.com / 01970 828662.

**TACHWEDD 20** Nos Wener Rhys Meirion, Sam Ebenezer a Heledd Davies yn cynnal cyngerdd byw o lwyfan Theatr y Werin, Aberystwyth am 8.00 Tocynnau £8 i £15 Archebwch o wefan Canolfan y Celfyddydau. Gwyliwch o'ch cartref.

**RHAGFYR 11** Nos Wener 'Dathlu'r Nadolig' dan ofal Llinos Dafis a Heledd Ann Hall, Cymdeithas Lenyddol y Garn, am 7.30 o'r gloch; cyfarfod dros Zoom – cysylltwch â'r ysgrifennydd i gael y manylion: marian_hughes@btinternet.com / 01970 828662.

**RHAGFYR 17** Nos Iau Cymdeithas y Penrhyn Plygain trwy gyfrwng ZOOM Mwy o fanylion i ddilyn

# Cyfeillion Y Tincer

## FFURFLEN GAIS SWYDDOGOL I YMUNO Â'R CLWB

ENW LLAWN ______________________________

CYFEIRIAD ______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

CÔD POST ______________________________

RHIF FFÔN ______________________________

**Taliadau**
Ticiwch y bocs priodol os gwelwch yn dda

☐ Arian neu siec

☐ Archeb banc

**Datganiad**

Dymunaf ymaelodi â Chlwb Cyfeillion Y Tincer a deallaf y bydd gofyn i mi dalu £10 am flwyddyn o Aelodaeth sydd yn cynnwys dau rif. Tynnir y rhifau yn fisol yn ystod 10 sesiwn plygu'r Tincer.
Cyhoeddir y rhifau buddugol yn Y Tincer

Llofnod ______________________________

Dyddiad ______________________________

# 30 MLYNEDD YN OL



Gwylwyr y Glannau y Borth – o'r chwith Mr Cyd Clare, Mr J.L. Davies, Tywyn (swydd-og dros adran y Borth), Mr Ronnie Davies, Mr Jim Palmer a Mr Neil Greenfield.
Llun: Arvid Parry- Jones (O *Dincer* Tachwedd 1990)

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Hydref 2020

**£25** (Rhif 66) Elwyn Pryse, Isgarn, Maes Ceiro

**£15** ( Rhif 251) Iestyn Hughes, 14 Maes y Garn

**£10** (Rhif 78) Meinir W Edwards, Banc yr Eithin, Llandre

Fe dynnwyd y rhifau buddugol yng nghartref y trefnydd oherwydd y cyfyngiadau presennol.

Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch wybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar e-bost m.e.bebb@talk21.com

Cofiwch fod amser ail ymuno yn dod i fyny ar Ionawr 1.

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 15 Medi ar y we. Cadeiriwyd gan Delyth James, y Cadeirydd, ac roedd y cynghorwyr Shân James, Tegwyn Lewis, Dai Mason, Richard Owen, Gwenan Price ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Roedd ymddiheuradau wedi'u derbyn gan Edwina Davies, Iona Davies a Mel Evans.

Materion yn codi: Llwybr beicio i Gogerddan – roedd y gwaith yn parhau ac yn agos i gael ei orffen.

Cyllid: roedd yr archwiliad mewnol ar gyfer 2019/20 wedi'i gwblhau, ac roedd y cyfrifon yn awr wedi'u hanfon ymlaen i'r archwilydd allanol.

Cais cynllunio: A200666, garej ym Mryncadno., Penrhiwnewydd – dim gwrthwynebiad.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth 20 Hydref ar y we. Cadeiriwyd gan Delyth James, y Cadeirydd, ac roedd y cynghorwyr Mel Evans, Shân James, Tegwyn Lewis, Dai Mason, Richard Owen, Gwenan Price ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Roedd ymddiheuradau wedi'u derbyn gan Edwina Davies ac Iona Davies.

Materion yn codi: roedd y llwybr beicio i Gogerddan wedi'i gwblhau, a phenderfynwyd anfon llythyr at y contractwyr i'w llongyfarch ar y gwaith.

Adroddwyd y byddai'r caban bws yn cael ei ailosod yn fuan.

Gohebiaeth: daethai llythyr gan Gylch Meithrin Trefeurig yn gofyn am gymorth. Gan na fyddai hi'n bosib i Siôn Corn ymweld â'r ysgol eleni, roedd rhai wedi meddwl tybed a allai'r Cyngor helpu gyda threfnu taith i'r hen Siôn o gwmpas y pentref. Cytunwyd mewn egwyddor, a'r Cynghorydd Shân James i drafod gyda'r Cylch.

Sul y Cofio: oherwydd y sefyllfa gyda Covid 19, penderfynwyd na ellid cael gwasanaeth cyhoeddus wrth y gofeb yn ôl yr arfer. Penderfynwyd y dylid gwahodd y cyrff arferol i anfon cynrychiolwyr i osod torchau – y Cyngor Cymuned, dwy dorch, un goch ac un wen; Eglwys Sant Ioan; RAOB, Lodge Gogerddan; y Brownies.

Cynllunio: A200755, 4 Garn-wen, estyniad unllawr – dim gwrthwynebiad; A200782, Llys Meurig, Penrhiwnewydd, newid defnydd tir er mwyn cael tri pod campio – dim gwrthwynebiad. Y datblygiad y tu draw i Horeb – cadarnhaodd y Cynghorydd Dai Mason fod y Cyngor Sir wedi rhoi caniatâd i Wales and West godi 18 o dai a byngalos ar y tir gyda'r amod fod y tai ar gyfer 'pobl leol', beth bynnag yn union oedd ystyr hynny.

Unrhyw fater arall: adroddodd Mel Evans fod Capel Salem wedi'i werthu.

# Y BORTH

**Newyddion Canolfan Deulu'r Borth**

Mae Hwb Cymunedol y Borth yn trefnu Parseli Nadolig ar gyfer aelodau hŷn ein cymuned diolch i grant Cymunedau Gofalu CAVO. Rydym hefyd yn parhau i ddarparu pecynnau celf fel sydd wedi bod yn digwydd ers dechrau'r pandemig ac mae'r rhain bellach yn cynnwys ystod o weithgareddau Nadolig gan gynnwys addurniadau a chardiau. Yn ogystal, rydym wedi bod yn danfon mwy o becynnau plant gan gynnwys gweithgareddau, llyfrau, dillad cynnes a bwndeli babanod.

Y mis yma, cafwsom y pleser o gyflwyno'n Tystysgrif Gwirfoddoli Ceredigion gyntaf erioed yn dilyn lansio'r tystysgrifau newydd gan CAVO. Hoffem ddiolch o galon i'r wirfoddolwraig ifanc sydd wedi bod yn ein helpu yn y Ganolfan Deulu ac a lwyddodd i roi 150 o oriau o'i hamser i ni rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020, er ei bod yn brysur gyda'i gwaith coleg.

**Sesiynau Awyr Agored**

Rydym yn parhau i gynnal ein sesiynau Cerdded a Sgwrs a sesiynau chwarae awyr agored pan fo'r cyfyngiadau'n caniatáu. Gwnaeth y clwb ieuenctid ddefnydd da o'r tywydd hyfryd cyn hanner tymor a chyfarfod y tu allan bob dydd Iau. Diolch yn arbennig i AberAdventurers am y wers syrffio.

Os oes gennych ddiddordeb mewn darganfod mwy am weithgareddau Hwb Cymunedol y Borth, e-bostiwch contact@borthfamilycentre.co.uk neu ffoniwch Helen ar 07896 616 857.

**Rhoddion Pum Mil Carnifal y Borth 2020**

Er gwaethaf heriau'r cyfnod clo a chyfyngiadau'r Coronafeirws, fe lwyddodd Pwyllgor Carnifal y Borth i godi £4,000 at achosion lleol drwy gynnal digwyddiadau gyda chefnogaeth gan fusnesau lleol, pentrefwyr ac ymwelwyr. Penderfynodd y pwyllgor ychwanegu £1,000 tuag at y cyfanswm a godwyd o'n cronfa wrth gefn felly roeddem yn gallu cynnig £5,000 ar gyfer rhoddion i grwpiau yn y Borth.

Eleni felly, bydd Carnifal y Borth wedi helpu:

- Bad Achub RNLI y Borth
- Gwylwyr y Glannau y Borth
- Clwb Pêl-droed y Borth
- Sefydliad y Merched, y Borth
- Sgowtiaid y Borth
- Clwb Rhwyfo'r Borth
- Pobl Hŷn y Borth
- Dolau Bach
- Eglwys St. Matthew
- Cyfeillion Brigâd Dân y Borth




Roedd yr Ŵyl Sialc a'r Gystadleuaeth Cestyll Tywod ymhlith y digwyddiadau y llwyddodd Pwyllgor Carnifal y Borth i'w cynnal.



Bydd y cyfraniadau yn helpu tuag at ystod o ofynion yn cynnwys ysbienddrych, adeiladu ciosg a chyfleusterau toiled, ffioedd aelodaeth, costau rhedeg ac ati.

Dyma'r digwyddiadau a sicrhaodd bod y pwyllgor wedi gallu codi arian yn ogystal â dod â rhywfaint o bleser i'r Borth:

- Cynhyrchu cylchgrawn rhyfeddol, yn llawn erthyglau diddorol
- Wedi cynnal Gŵyl Sialc greadigol iawn a oedd yn bywiogi›r morglawdd

## Sgowtiaid y Borth

Diolch yn fawr i'n harweinwyr ifanc sydd bellach wedi derbyn eu Tystysgrifau Gwirfoddoli Ceredigion trwy'r post. Bydd cyflwyniad ffurfiol yn cael ei gynnal unwaith y bydd modd gwneud hynny'n ddiogel. Rydym mor ddiolchgar i'r arweinwyr ifanc yma sydd rhwng 15 a 17 oed. Roedd tri ohonyn nhw wedi cwblhau 50 awr o wirfoddoli ac un wedi llwyddo i gwblhau 100 awr.

Pan fyddwn ni'n gallu dychwelyd i gynnal cyfarfodydd Ail Sgowtiaid y Borth wyneb yn wyneb, byddem yn hapus iawn i groesawu arweinwyr a gwirfoddolwyr newydd o unrhyw oedran. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Hugh ar h.r.m.h.@btinternet.com.

Mae Canolfan Deulu'r Borth wedi cyflwyno Tystysgrifau Gwirfoddoli am y tro cyntaf i bobl ifanc y pentref sy'n rhoi eu hegni a'u hamser i helpu.



- Wedi cynnal Cystadleuaeth Cestyll Tywod yn Ynys-las
- Cynhyrchu Helfa Drysor drethadwy iawn trwy'r Borth
- Cwis Rhyngrwyd
- Tudalen 'Just Giving'
- Ras Hwyaid

Gobeithiwn y byddwn yn gallu dychwelyd i ryw fath o normalrwydd y flwyddyn nesaf. Ond rydyn ni'n addo y bydd Pwyllgor Carnifal y Borth yn parhau i gadw'r Carnifal i fynd.

**Carol Bainbridge**
Cadeirydd Pwyllgor Carnifal y Borth

**Cynnig Arbennig Libanus 1877**

Ar ôl bod ynghau am 17 diwrnod ystod yr ail gyfnod clo cenedlaethol, fe ailagorodd drysau sinema Libanus 1877 ar nos Lun 9 Tachwedd a'r tŷ bwyta ar nos Fawrth 10 Tachwedd.

Er mwyn rhoi hwb yn ystod mis Tachwedd, mae'r perchnogion Peter a Grug wedi trefnu cynnig arbennig.

Bob nos Fawrth – nos Wener, bydd modd cael pryd byrger 'posh' a sglodion yn y tŷ bwyta rhwng 6-7yh a thocyn sinema am £12 y person. Gan fod llefydd yn brin, mae bwcio mlaen llaw yn angenrheidiol.

Mae bwyty'r Libanus ar agor gyda'i fwydlen arferol o nos Fawrth hyd amser cinio dydd Sul, gyda bwydlen Nadolig arbennig ar gael o ddechrau mis Rhagfyr. Mae manylion pellach i'w cael ar Facebook neu ar wefan www.libanus1877.com.

**Grŵp Amnest Rhyngwladol y Borth**

Bob blwyddyn, mae Grŵp Amnest y Borth yn cynnal swper arbennig yng nghartref Jenny Williamson a Stuart Evans. Mae'n noson hynod o gymdeithasol sy'n cynnig cyfle i gymdogion ddod at ei gilydd tra'n codi arian at yr achos. Yn anffodus, bydd yn amhosib cynnal y digwyddiad eleni oherwydd cyfyngiadau'r coronafeirws ond mae croeso i bobl roi cyfraniad at yr achos os ydynt yn dymuno.

Mae'r Grŵp hefyd yn parhau gyda'u cynlluniau arferol i godi arian drwy nofio yn y môr ar Ŵyl San Steffan. Dylai'r sawl sydd am fentro i'r dŵr ymgynnull ar y traeth wrth odre'r graig erbyn hanner dydd ar 26 Rhagfyr.

**Cyfnod o newid i Glwb Golff Borth ac Ynys-las**

Cyn y cyfnod clo bach, llwyddwyd i gynnal Cyfarfod Blynyddol y Clwb a'r etholiadau ar gyfer swyddogion newydd.

Roedd Brian Middleton a Catherine Maunder yn dod i ddiwedd eu hamser fel Capteiniaid a hynny mewn cyfnod anodd tu hwnt. Diolchodd y ddau Gapten i'r holl aelodau am eu cefnogaeth dros y flwyddyn ac yn enwedig yn ystod y misoedd diwethaf yn dilyn y cyfnod clo. Llwyddwyd er yr holl heriau i gynnal cystadlaethau blynyddol y clwb a mwynhau chwarae golff.

Etholwyd y Capteiniaid newydd sef Jeff Evans a Karen Evans sydd eto yn wynebu heriau, gyda Covid 19 dal i effeithio ar ein bywydau bob dydd.

Mae Karen yn aelod o'r clwb ers dros 20 mlynedd ac yn byw ger Tal-y-bont. Dyma'r ail dro iddi fod yn Gapten ac mae'n edrych ymlaen at arwain adran y merched dros y flwyddyn nesa a chydweithio gyda Jeff.

Mae Jeff yn byw yn Y Borth ac yn gyn Bostmon yn y pentre. Mae wedi bod yn aelod yn y clwb ers blynyddoedd ac yn gyn Gapten y 'Seniors'. Pob llwyddiant i'r ddau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Roedd hefyd yn ddiwedd cyfnod i Alun Phillips fel Llywydd y Clwb gyda Nans Morgan yn dechrau yn y rôl am y ddwy flynedd nesa. Diolchodd Nans am y fraint o gael bod yn Llywydd a dywedodd ei bod yn edrych ymlaen yn eiddgar at gydweithio gyda'r pwyllgor i sicrhau llwyddiant i Glwb Golff y Borth ac Ynys-las. Llongyfarchiadau mawr i Nans ar ei hanrhydedd.



Nans Morgan sy'n olynu Alun Phillips fel Llywydd Clwb Golff Borth ac Ynys-las.



Capteiniaid Newydd y Clwb yw Jeff Evans a Karen Evans.

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar agor
Llun-Sadwrn
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

# Atgofion am ardal Trefeurig (parhad)

**Capeli**

Yr oedd ein capel ni - Siloh - yn rhyw dair milltir i ffwrdd, ac mi fyddwn yn mynychu'r oedfaon bron bob Sul. Mynd i'r cwrdd erbyn deg a cherdded adref i ginio, a mynd nôl eto erbyn dau i'r ysgol Sul. Byddai un o deuluoedd caredig Cwmerfyn yn rhoi te i mi, a byddai naill ai dad neu mam yn dod i'r cwrdd nos.



Yr oedd dau gapel yng Nghwmerfyn, Siloh Annibynwyr, a Bethlehem Methodistiaid, ag un arall yng Nghwmsymlog sef y Bedyddwyr. Byddai gwasanaeth yr hwyr bob yn ail nos Sul yn y ddau gapel yng Nghwmerfyn. Cofiaf un pregethwr lleyg yn dda, sef John Hughes, Tanbryn, yr oedd yn berchen ar y pennaid gorau o wallt gwyn a welais erioed. Nid oedd yn berchen ar lais mawr ond mi fyddai ym mynd ymlaen ac ymlaen nes byddai lais wedi mynd i gyd. Un arall wyf yn ei gofio yw Thomas Morgan "Proffesar Melini" ar lafar gwlad. Ef oedd arolygwr yr ysgol Sul. Cofiaf fel y bu i mi fethu casglu dim ond pum swllt at y genhadaeth, ag mi roedd yn rhaid cael saith a chwech i deilyngu cael llyfr, fel y bu i Thomas Morgan brynu llyfryn bach o *Daith y Pererin*




i mi, ac y mae yn drysor gennyf o hyd.

Byddai rhaid eistedd arholiad yn yr ysgol Sul er mwyn derbyn tystysgrif yn y Gymanfa, a gynhelid bob mis Mai. Pan fyddem wedi mynd yn rhy hen i'r arholiad llafaredig, byddem yn gorfod mynd i Salem Coedgruffydd, y fam eglwys, i eistedd arholiad ysgrifenedig.


Tystysgrif o Lwyddiant

Yr oedd yn ofynnol i bob un gael côr iddo eu hun, eistedd ar y stôl droed a defnyddio'r sedd fel bwrdd. Yr oedd yn dipyn o hwyl edrych i fyny nawr ag yn y man a gweld pen yn dod i'r golwg fan hyn a fan draw. Yr oedd gweithgarwch mawr yn mynd ymlaen rhwng y tri chapel yn ystod y flwyddyn. Tynnwyd allan raglen erbyn pob gaeaf, ac fe alwyd hon yn "Foes a Chrefydd". Rhaglen a fyddai yn cynnwys darlithiau, cyrddau cystadleuol, cyngherddau, ac aml i sosial. Byddai pawb yn ymuno yn y gwahanol bethau ac yn mwynhau. Un peth arall rwy'n cofio ynglŷn â'r capeli, iddynt benderfynu uno i bawb hen ag ieuanc gael trip. Y trip cyntaf wyf fi yn ei gofio, oedd i Aberteifi, siwrnai hir iawn yn wir. Nid wyf yn cofio pwy oedd berchen y buses ond mi roedd yno dri. "Primrose Garage" a ddaeth wedi hynny. Cychwyn o Ben-bont Rhydybeddau am wyth o'r gloch, a'r tri bws yn llawn o blant, oedolion, a digon o fwyd am y dydd. Yr oedd un teulu yn dechrau bwyta ym Mhenrhyn-coch, peth mwyaf tebyg na fyddent wedi cael amser i gael brecwast. A siarad am frecwast, byddai'r plant yma yn cael swp te i frecwast bob dydd, ac ar ôl llawer o berswâd ar mam cawsom ni ef hefyd, ond dyna'r tro olaf, mor bell ag yr oeddwn i yn y cwestiwn. Er nad yw Aberteifi ymhell i ni heddiw, byddai yn daith bell iawn ar y trip ers llawer dydd, yn enwedig i'r rhai nad oedd yn gyfarwydd a theithio. Byddai rhaid aros y bws yn aml i rywun neu gilydd fod yn sâl ym môn y clawdd. Un o'r rhai hynny oeddwn i, mae gen i gywilydd dweud. Enillais, ynghyd a thri arall o ddisgyblion yr ysgol, ddigon o bwyntiau i warantu gwobr, a'r wobr oedd cael ymweld â bedd Ceiriog yn Llanwnnog, a chael mynd yng nghar Morris Oxford du dici sît y tu ôl, a oedd yn berchen i'r prifathro. Fel ar drip y capeli, bu raid i fi gerdded tipyn o flaen y câr, ar ben Eisteddfa. Dyma ddangos eto garedigrwydd y prifathro, gan mai ef oedd yn ein bwydo a rhoi gwobr mor dda am ein gwaith ysgol.

**Gaeafau caled**

Un peth arall sydd wedi aros ar fy ngof yw'r gaeafau caled fyddem yn eu cael yr amser hynny. Fel ag y byddem yn cael ein torri ffwrdd o bob man, a hynny am wythnosau weithiau. Byddai'r rhieni bob amser yn gofalu fod digon o fwyd sych a fyddai yn addas i'w gadw, ond mi fyddai bara a chig, ac weithiau glo yn rhedeg allan. Yna mi fyddai rhai o'r dynion yn cerdded i Benrhyn-coch neu i Aberystwyth, taith a gymerai ddiwrnod yn aml. Rwy'n cofio unwaith gweld fy nhad ar ôl bod yn y dre, yn dod adre ag eira wedi rhewi ar ei wallt ag eiliau ei lygaid.

Fe ddaeth cyfnod caled iawn arnom ar un amser a dim gwaith i'w gael yn unman. 'Rwyf wedi bod yn dyfalu lawer gwaith sut y medrodd mam fwydo a chadw cartref i fynd, i saith o deulu. "Means test" y gelwyd yr amser hynny, a dyna oedd e yn wir ystyr y gair. Gallaf weld yn fy meddwl yn awr, fel ag yr oedd dynion y pentref yn cerdded i goedwig yn edrych am Goginan, i geibio stoncs coed. Hela un diwrnod i geibio, a diwrnodau eraill i'w cario ar eu cefnau adre. Byddai cael cant o lo yn dwll mawr yn yr arian a dderbynient, felly rhaid oedd cael rhywbeth i goginio a gwresogi. Byddai'r dynion yn chwarae coets, â hen bedolau, pan fyddai'r tywydd yn caniatáu, neu fynd i'r gwahanol dai i chwarae rings, neu dominoes, ag yn aml iawn byddent mewn rhyw sied neu'i gilydd yn sgwrsio.

Ychydig o flynyddoedd cyn i mi adael yr ysgol, cychwynnwyd "Treialon Cŵn Defaid" yn Nhrefeurig. Hyn eto yn un o brojectau Dan Jones. Cynhelid nhw yn flynyddol ym mis Awst, ar dir yn agos i Fancydarren. Roedd hwn yn ddiwrnod mawr iawn yn ein hanes ni'r plant. Cael gweld cymaint o bobl ar un tro, a gweld rhai na fyddent wedi eu gweld ers amser. Fe drefnodd Dan Jones i un o wragedd y pentref i ofalu am wneud bwyd i'r beirniaid a'r bobl fawr, a hynny ar yn ail flwyddyn. Byddai rhai eraill yn gwneud bwyd i'w werthu, er mwyn gwneud ceiniog neu ddwy yn ychwanegol at yr arian a dderbynient. Doedd hyn ddim yn fy siwtio i o gwbwl, gan fy mod yn gorfod helpu i olchi llestri neu weini os deuai rhywun eisiau bwyd. Mae'n braf iawn gweld y treialon yn cael eu cynnal ar Fancydarren o hyd, er yr holl newid.

Cofiaf un peth arall a ddaeth i Drefeurig, sef tîm pêl droed. Hwn eto yn cael dod i Fancydarren, gan fod tir addas i chwarae yno. Byddai'r chwaraewyr yn gorfod dringo i fyny o Ysgol Trefeurig i Fancydarren, a gallwn feddwl y buasai hyn yn ei hun



*Mrs Ithel Jones cyn brifathrawes ysgol Trefeurig yn cyflwyno siec i Mrs Marion Jones ar ei hymddeoliad 20/12/1985 Llun: Terry Sadler*

yn ddigon o dasg, a mynd nôl lawr eto i olchi a chael cwpaned o de. Rwy'n cofio i Drefeurig gael eu curo dau ddeg saith i ddim, ond fu hynny ddim yn dramgwydd, gydag ymarfer fe wellwyd ar y sefyllfa. Mae gennyf lawer iawn mwy o atgofion, ond dyma rai sydd yn dod i gof wrth ysgrifennu.

Daeth pedair ar ddeg oed yn rhy fuan o lawer i mi. Bu rhaid gadael yr ardal, a dechrau pennod arall yn fy mywyd. Nôl i Drefeurig ddes i, ac rwy'n siŵr fod rhyw hudoliaeth yma a'm denodd yn ôl. Braf iawn yw hi nawr i rannu atgofion â'r to iau.

**"Hoff o'i fro"**

Dynes ei milltir sgwâr fu Mam-gu erioed ac ni chrwydrodd ymhell o'r ysgol, neu'r 'Mountain Academy' fel 'roedd hi'n ei alw pan yn ddisgybl yno.

Dychwelodd i weithio fel 'Dinner Lady' ar ôl colli fy Nhad-cu yn y saithdegau cynnar. Fe'i hadnabyddir yn well i ddwsinau o blant yr ardal fel 'Mrs Jones y dŵr'. Cyfnod teyrnasiad y ddiweddar Mrs Valma Jones fel prifathrawes ysgol Trefeurig oedd hyn, gan nodi mai Valma Jones gychwynnodd Gwrdd Cystadleuol Cymdeithas Trefeurig.

Dathlodd Valma Jones ei phen blwydd yn gant ar ddechrau mis Rhagfyr 2019, naw mis oedd rhwng hithau a Mam-gu a bu'r ddwy yn ffrindiau am flynyddoedd mawr. Bu farw Valma ym mis Mai 2020.

Felly wrth imi dawel ddathlu a dweud Pen-blwydd Hapus yn 100 oed Mam-gu, gobeithio eich bod wedi mwynhau darllen rhai o'r cannoedd o atgofion melys y cefais y fraint o'i rhannu ganddi.

**Marion Jones (trwy law Meriel Ralphs)**

Uchafbwyntiau'r mis ar **BroAber360.cymru**


**GAIR GAN YR YSGOGYDD**



Helo! Mae digon o straeon ar eich gwefan fro y mis yma, ac rydym yn falch iawn o lansio cwrs i ohebwyr ifanc, sydd yn cynnwys pobol o'r fro - ewch i broaber360.cymru am fwy o fanylion. Diolch i bawb am y straeon! Dan

**GWRACH CORS FACHNO**

Diolch i Iestyn Hughes am y darn yma sydd yn edrych ar gerdd Anwen Pierce am wrach Cors Fachno - hanes dw i'n siŵr mae lawer ohonoch chi'n gyfarwydd â!




**MYFYRDODAU HOREB AR GAEL**

Diolch i William Howells a'r Parchedig Peter Thomas am greu oedfaon wythnosol ar y wefan - felly os rydych angen rhywbeth i'ch cynnal yn yr amseroedd ansicr yma, ewch i'r wefan ddarllen y darn wythnosol.

Croeso cynnes i'r Oedfa!

**CYMDEITHAS LENYDDOL YN ZWMIO**

Wrth i ni addasu i'r normal newydd, mae mudiadau wedi darganfod ffyrdd newydd o gynnal sesiynau. Diolch i Llinos Dafis am ei adolygiad o gyfarfod rhithiol Cymdeithas y Garn, yng nghwmni Sara Huws.



Ffili aros tan y papur nesa'?
– BroAber360.cymru


Eirian Reynolds, Tech. S.P.

GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH

Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant

01970 820124
07709 505741

GWASANAETH GARDDIO MYNACH

Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS

Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau

Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad

Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ

Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com

Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN



**Anifeiliad ein hardal**
Rydym yn hoff iawn o anifeiliad ac wedi methu mynd i'r sw neu llefydd fel Folly Farm yn ystod y cyfnod clo. Felly rydym wedi bod allan dros y misoedd diwethaf yn ymweld ag anifeiliad ein milltir sgwâr. Dyma ychydig o'n hanes:

Dyma ni yn bwydo'r ieir yn nh John a Marella, ein cymdogion. Maent yn garedig iawn ac yn gadael i ni fwydo'r ieir bob bore a nos. Rydym wrth ein bodd yn gwneud hyn ac yn mwynhau eu gweld yn hedfan draw er mwyn cael hadau!

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr i dymor y Gwanwyn ac i weld yr wyn bach. Yn ddiweddar, rydym wedi bod yn mwynhau gweld y defaid ac yn bwyta mwyar duon cyfagos.

Dyma ni yn bwydo'r asynnod sydd yn y pentref. Maent yn gwneud llawer o swn pan maent yn gweld y gwair yn ein dwylo!

Rydym yn hoff iawn o glywed swn y gwartheg ac yn eu gweld yn bwyta'r glaswellt ger yr afon.

Yn ddiweddar, buom yn ddigon lwcus i gael ymweld â Chanolfan Marchogaeth Rheidol, lle gawsom groeso gyda Iola, y perchennog. Mae Manon yn hoff iawn o farchogaeth ac roedd yn falch iawn cael y cyfle i roi bwyd i geffyl Iola, sef Ginger. Gwnaethom hefyd gyfarfod â Belle, sef ci du a gwyn Iola. Diolch Iola am dy amser!

**Manon ac Elsi Wynn Lewis**

**Sefydliad y Merched, Penllwyn:**
A hithau yn brynhawn heulog ar y 15fed o Hydref, daeth aelodau Sefydliad y Merched ynghyd i gymdeithasu ar lawnt Llywydd y gangen i fwynhau paned a chacennau. Pwrpas y cyfarfod yn bennaf oedd i gael sgwrs ac i geisio gwneud trefniadau gogyfer â'r dyfodol. Croeso i chithau ymuno â ni.

Er fod y gangen ym Mhen-llwyn yn gant oed erbyn hyn, yr un yw'r llawenydd o ddathlu cymdogaeth dda a brawdgarwch. Daliwch i wenu bob un.

Diolch i Malcome am gofnodi gweithgaredd y prynhawn hyfryd hwn.

**Merched y Wawr, Melindwr**
Gwelwn eisiau ein cyfarfodydd misol yn fawr ond er hynny mae staff y swyddfa yn ein cadw yn brysur drwy amrywiol weithgareddau maent wedi eu trefnu ar ein cyfer. Bu'r cwis hwyl yn ein cadw yn brysur am sawl diwrnod ac fe ddysgasom lawer iawn o'r herwydd. Mae aelodau eraill wedi mynd ati i greu blodau hyfryd o waith llaw a byddant yn cael ei hanfon, gyda hyn i swyddfa Aberystwyth ac o dipyn i beth bydd enfys lliwgar dros ben o flodau o bob rhan o Gymru yn ffurfio yr enfys gorffenedig a gaiff ei arddangos yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron y flwyddyn nesaf (felly y gobeithiwn). Mae swyddogion y gangen wedi cyfarfod ar zoom o dro i dro, a'r gobaith yw y bydd yr aelodau oll yn medru ymuno maes o law. Caiff cylchgrawn *y Wawr* ei ddosbarthu bob dau fis, ac mae cryn edrych ymlaen at ei ymddangosiad bob tro. Cymerwch ofal, ac edrychwn ymlaen yn eiddgar pan y bydd yn bosibl i ni gyfarfod yn un cwmni hapus unwaith eto.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau calonnog i Mr. a Mrs. Eilir Morris ar ddod yn hen Dad-cu a Mam-gu. Ganwyd i Dr Huw a Dr Angharad Pritchard yng Nghaerdydd ferch o'r enw Siwan Esyllt. Cofion a dymuniadau gorau hefyd at Gaenor a Philip Watkins yn Llanymddyfri wrth iddynt hwy ddod yn Fam-gu a Thad-cu am y tro cyntaf. Byddant un ac oll yn aros yn eiddgar i gael cwtch â Siwan fach gyda hyn. Pob bendith arnoch fel teulu.

Bu Gaenor yn brysur -sylwir ei bod yn un o awduron y gyfrol Adref a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y cylchgrawn *Cara*. Ac roedd yn un o dair aelod Clwb Gwawr Llanymddyfri enillodd gystadleuaeth cwis Hwyl 2020 Merched y Wawr! Llongyfarchiadau

**Genedigaeth**
Fel y cyhoeddwyd yn *Nhincer* Hydref ganwyd merch fach i Aled a Hana, y Fron ar 7 Hydref. Cafwyd gwybodaeth bellach mai ei henw yw Martha Gwen. Dymuniadau gorau iddynt.





# Cyngor Cymuned Melindwr

Oherwydd yr amgylchiadau nid yw'r Cyngor Cymuned yn medru cwrdd yn y Neuadd. Cynhelir ein cyfarfodydd trwy gyfrwng Zoom. Mae'r clerc yn danfon unrhyw wybodaeth i'r Cynghorwyr trwy ebost. Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref dan gadeiryddiaeth ein Cadeirydd, y Cynghorydd Richard Edwards. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Sir, Rhodri Davies.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Medi fel rhai cywir.

Cyfarfod Blynyddol. – Oherwydd y cyfyngiadau nid oedd yn bosibl i drefnu cyfarfod blynyddol yn ôl yr arfer o'r trydydd nos Iau ym mis Mai yn Neuadd Capel Bangor. Eleni bydd rhaid trefnu y cyfarfod blynyddol trwy gyfrwng Zoom. Bwriedir cynnal y cyfarfod ar nos Iau Tachwedd 19 am 7.30YH. Am fanylion pellach ebostiwch y clerc ar cyngormelindwrcouncil@gmail.com. Mae'r hysbysiad ar safle we Cyngor Cymuned Melindwr.

Roedd tri chais cynllunio wedi dod ger bron y Cyngor mis yma sef,

A200723 – Gwasanaethau Clarach Bay, Iard Cwm Nant, Capel Bangor.

A200761- Tir ar Troedrhiwceir, Aberffrwd.

A200797 – Gorsaf Ynni Rheidol, Cwmrheidol.

Mae Cyngor Melindwr mewn trafodaeth efo cwmni gwneuthurwr ynglyn â chael gorchudd bws arall yn lle yr un a ddifrodwyd ger Stad Penllwyn.

Gobeithir rhoi grantiau bychain i fudiadau lleol i gefnogi gweithgaredd neu brosiect. Bydd angen gwneud cais erbyn Rhagfyr 31 2020.

Diolch i'r Cynghorydd Sir Rhodri Davies am ei gefnogaeth i Gyngor Cymuned Melindwr ac am ei dudalen Facebook Materion Melindwr Matters lle mae yn cynnwys ddiweddariadau am Covid 19.

Noder fod yna sedd wag ar y Cyngor; os oes rhywun â diddordeb cysylltwch â'r clerc neu un o'r Cynghorwyr am fanylion. Bydd y cyfarfod nesaf yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol ar nos Iau Tachwedd 19 trwy gyfrwng Zoom unwaith eto.

## LLANDRE

**Hen famau cu**

Llongyfarchiadau i Nans Morgan, Dolgwiail, ar ddod yn hen fam-gu yn ddiweddar. Ganwyd merch fach o'r enw Nyfain Eryl Gruffudd i Gruffudd Rhys a Mari sydd yn awr yn byw yng Nghaernarfon.

Llongyfarchiadau i Elena Davies, Bronallt ar ddod yn hen famg-gu yn ddiweddar. Ganwyd bachgen bach o'r enw Evan Isaac Alun i Hazel a Mathew Mathias yn Barnsley.

**Merched y Wawr**

Gan nad oes modd iddyn nhw gyfarfod i rannu profiadau dros baned fe aeth Merched y Wawr Genau'r-glyn ati i greu cylchlythyr sgyrslyd i'r aelodau dan y teitl *Geiriau o Enau'r Glyn*, a'i ddosbarthu ar bapur gan nad oes gan bawb gyfleusterau digidol. Braf iawn oedd clywed y gwahanol brofiadau yn ystod y Clo Mawr.




**Colofnydd newydd**

Dymuniadau gorau i Dylan Huw - ar gael gwahoddiad i gyfrannu colofn reolaidd i *Barn,* ar gelfyddydau ~rhithiol ymddangosodd y gyntaf yn rhifyn Tachwedd lle mae'n sôn am rai gwyliau lleol a ddigwyddodd eleni ar y platform newydd AM.

**Llywydd Y Clwb Golff**

Llongyfarchiadau i Nans Morgan, Dolgwiail ar gael ei hethol yn Llywydd Clwb Golff y Borth ac Ynys-las am y ddwy flynedd nesaf



Y ffordd ar gau uwchben yr eglwys bore Tach 2 Llun:Nia Peris

## DOLAU

**Priodas Aur**

Llongyfarchiadau mawr i Dafydd a Mair Evans, Madryn ar ddathliad eu priodas aur yn ddiweddar; gan ddymuno llawer mwy o flynyddoedd o hapusrwydd oddi wrth Eleri, Xavier, Erin a Tomos xx

**Diolch**

Hoffai Mair a Dafydd, Madryn, ddiolch i bawb am y cardiau, blodau, galwadau ffôn a'r anrhegion a dderbyniont ar eu priodas aur yn ddiweddar.

**Pen blwydd arbennig**

Penblwydd hapus iawn i Dwysli Peleg-Williams sydd yn dathlu pen blwydd arbennig canol mis Tachwedd.

**Yn y coleg**

Dymuniadau gorau i Teleri Morgan, Pwllglas, ar ei chwrs amaethyddol ym Mhrifysgol Aberystwyth.

## DOL-Y-BONT

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Nia a Matthew Nankivell ar enedigaeth Megan Elin yng Nghaerfuddai (Chichester) ar 30 Hydref; chwaer fach i Tomos; wyres i John a Sian Cory, Bryngwyn.

GWE Cambrian WEB
Gwefannau Gwych o Gymru
Creu Gwefannau
Marchnata Digidol
Pecynnau Gofal Gwefan
a llawer mwy!
*Gwasanaeth Gymraeg*
Cysylltwch Heddiw
info@cambrianweb.com
01970 623 906



# Colofn Enwau Lleoedd

Mae nifer helaeth o enwau capeli anghydffurfiol yr ardal hon, fel ar draws Cymru, yn enwau beiblaidd a fenthyciwyd i'w lleoliadau newydd.

Enwyd *Bethel*, capel Annibynwyr Tal-y-bont, ar ôl y fan lle breuddwydiodd Jacob iddo weld Duw a'r angylion, a'i ystyr yw 'tŷ Dduw'. Derbyniodd *Horeb*, capel Bedyddwyr Penrhyn-coch, ei enw ar ôl *Mynydd Horeb* lle rhoddwyd y Deg Gorchymyn i Moses. *Bethlehem*, dinas Dafydd a man geni Crist, fu'n gyfrifol am roi ei enw i gapel Methodistiaid Calfinaidd Cwmerfyn. Ac enwyd capel *Tabor* a safai gynt yn nyffryn Camdwr, cangen orllewinol cronfa Nant y Moch, ar ôl *Mynydd Tabor*, sef safle gweddnewidiad Crist.





Yn achos capel *Salem* Coedgruffydd (a enwyd ar ôl y ddinas feiblaidd a gysylltir yn draddodiadol â *Jerusalem*) lledodd yr enw i gyfeirio at y pentref yn ogystal. Gwelwyd yr un broses ar waith ym mhentrefi *Moriah* a *Pisgah* rhwng Aberystwyth a Chapel Seion, yn *Beulah*, ger Castell Newydd Emlyn, ac yn *Horeb*, Llandysul.




Weithiau bydd enwau beiblaidd o'r math yma yn cael eu rhoi fel llysenwau chwareus neu wamal am leoedd heb gysylltiad crefyddol.

Yn ddiweddar, deuthum ar draws dwy enghraifft yn ardal *Y Tincer*, ac rwy'n dra diolchgar i Vernon Jones, Gaer-wen, Bow Street, am rannu ei wybodaeth helaeth gyda mi.

Yn ôl Vernon, *Jerusalem* yw'r enw a ddefnyddir ar lafar gan drigolion lleol am lecyn rhwng Bryngwyn Mawr a Thy'nffynnon ar y ffordd gefn o Benrhyn-coch i Dal-y-bont (SN 650 866). Adroddodd hen stori wrthyf am rywun yn cyfarfod â gwerinwr yn arwain asyn yno. Ar ôl holi i ble roedd yn mynd, derbyniodd yr ateb parod, 'I Jerusalem!'. Gallasai'r stori fod yn ymgais i esbonio enw oedd yn bodoli eisoes, neu'n sail dros fathu'r enw. Posibilrwydd arall yw bod bathwr yr enw yn ystyried y man hwn yn llecyn delfrydol neu nefolaidd.




***Map 1:25000 yr Arolwg Ordnans 1954***
***Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban (CC BY 4.0)***

Tynnodd Vernon fy sylw hefyd at ddarn o dir gwastad ar ben y bryn sy'n gorwedd yn union i'r gorllewin o Nantcellan Fawr, Clarach, a elwir ar lafar yn *Jericho* (SN 595 844). Gan nad oes unrhyw adfeilion yno, go brin mai cyfeiriad sydd yma at waliau *Jericho* yn cwympo. Serch hynny, mae Geiriadur Saesneg Rhydychen yn nodi bod *Jericho*'n cael ei ddefnyddio ar lafar am 'le cuddiedig neu anghysbell', ac o ystyried lleoliad y *Jericho* hwn, byddai hynny'n ddisgrifiad digon addas.

Tybed a wyddoch chi am enwau beiblaidd chwareus eraill yn ardal y Tincer?

Angharad Fychan

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
Cyfarfod Blynyddol
30ain o Dachwedd am 6.30
Y linc ar gael trwy gysylltu:
morlan.aber@gmail.com

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol

# Newyddion o fyd dysgu Cymraeg

Roeddwn i'n sefyll o flaen dosbarth o ddysgwyr oedd hanner ffordd trwy'r flwyddyn gyntaf o ddysgu pan ddaeth y neges drwodd ar y 17eg o Fawrth. "Mae croeso i chi orffen eich gwers heddiw, ond o hyn ymlaen ni fydd y dosbarthiadau'n cwrdd. Rydym yn gobeithio bydd modd ail-agor y dosbarthiadau erbyn yr haf."

Yr wythnos wedyn cynhaliais i fy nosbarth rhithiol cyntaf ar Zoom, oedd yn rhywbeth cwbl newydd i mi a phob tiwtor Cymraeg arall am wn i.

Bu'n rhaid i ni, y tiwtoriaid, a'r dysgwyr ddod i'r afael â'r dechnoleg newydd ar frys, ond pan mae wir angen gwneud rhywbeth, mae modd ei wneud e, ac erbyn hyn mae pawb wedi cyfarwyddo â'r "ystafelloedd breakout"(ystafelloedd cwrdd ar wahân? Rwy'n siŵr bod term gwell ar gael yn Gymraeg!), sut mae rhannu sgrîn a "chat".

Er fy syndod, roedd bod bron pob un o'r dysgwyr yn awyddus i gario ymlaen, ac fe ddaeth ambell un newydd aton ni.

Fe aeth yr haf, wrth gwrs, ac doedd dim modd cynnal stondinau recriwtio yn yr archfarchnadoedd fel arfer. Y gobaith oedd y gallem ddychwelyd i'r ystafelloedd dosbarth erbyn y Nadolig, ond erbyn hyn yn y cyfnod rhyfedd sydd ohoni, pwy a ŵyr?

Mae hi wir yn galonogol gweld cymaint o ddysgwyr brwdfrydig yn dysgu'r iaith ac yn darganfod hanes a diwylliant ein gwlad.

**Cefnogi dysgwyr – y Cynllun Siarad**

Tybed a oes hanner awr gyda chi bob hyn a hyn i helpu rhywun sy'n dysgu Cymraeg? Rydyn ni'n cynnig cynllun gwirfoddol o'r enw Siarad i'n dysgwyr ni, sef cynllun i baru dysgwyr a siaradwyr rhugl. Mae'r parau yn cwrdd i sgwrsio am bob math o bynciau - y nod yw neilltuo deg awr dros gyfnod o chwe mis, ond nod yw hyn.

Yn wyneb yr argyfwng iechyd a'r gaeaf yn agosáu, sy'n ei gwneud yn anos cyfarfod y tu allan, rydym yn edrych am wirfoddolwyr sy'n barod i helpu trwy gael sgwrs dros ffôn neu ar Zoom, Skype, Whatsapp, Messenger ac yn y blaen. Os bydd yr argyfwng iechyd yn newid yn sylweddol, bydd yn bosib trafod cwrdd wyneb-yn-wyneb.

Os teimlwch eich bod yn gallu helpu, ydy hi'n bosib i chi gofrestru yma os gwelwch chi'n dda?

https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/siarad/

Ein rhanbarth Dysgu Cymraeg ni yw Ceredigion, Powys a Sir Gaerfyrddin. Byddwn yn cael hyd i bartner i chi mor fuan â phosib.

Bydd y dysgwyr sy'n cofrestru ar y cwrs hwn i gyd yn gallu cynnal sgwrs sylfaenol yn y Gymraeg, o leiaf. Bydd rhai ohonyn nhw yn eithaf rhugl. Fydd dim dechreuwyr o gwbl. Meithrin yr hyder i siarad yw'r nod.

Am fwy o wybodaeth ac i holi unrhyw gwestiynau, mae croeso ichi gysylltu â fi'n uniongyrchol (cyfeiriad e-bost: riv1@aber.ac.uk).

Richard Vale, Tiwtor Dysgu Cymraeg, Prifysgol Aberystwyth

SIOP SGLODION
BOW STREET CHIPPY
4.30pm – 8.30pm
Mawrth – Sadwrn
Mae modd archebu o flaen llaw dros y ffôn
01970 820567


ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol



# PENRHYN-COCH





**Cystadleuaeth Calan Gaeaf**
Nos Glangaeaf – 31 Hydref – cynhaliodd Cylch Meithrin Trefeurig gystadleuaeth Calangaeaf dan bellter cymdeithasol ar Facebook. Gwahoddwyd pobl i wisgo i fyny, cerfio pwmpenni ac addurno ty am siawns i ennill gwobr!
Y categoriau a'r enillwyr oedd –
Babi/ Plentyn bach wisgwyd orau (0-4 oed): Emma Jane Jacques
Plentyn (5-11 oed) wisgwyd orau: Wendy Helen Phillips
Yr un wisgodd orau yn eu harddegau (12-16 oed): Sara Gibson
Yr un wisgodd orau wedi ei goluro (unrhyw oed): Georgina Evans
Y ty addurnwyd orau: Seren Smith
Y bwmpen gerfiwyd orau: Sian MacKintosh

**Horeb**
Llwyddwyd cynnal pedwar gwasanaeth yn Horeb ers dechrau Medi a chyn y Clo Bach. Dau ym Medi a dau yn yr Hydref cyn y Clo Bach. Methwyd cynnal oedfa Sul cyntaf Tachwedd. Oherwydd amgylchiadau ni fydd gwasanaeth fore dydd Nadolig eleni.



Cyfarfu y Clwb Sul trwy Zoom sawl gwaith – yma gwelir sesiynau ar y cyd â St Ioan. Dyma'r plant gyda'u Coronau hardd. Twm, Ned, Elis, Jac, Ywain, Caio, Caitlin, Rhys, Elen, Miriam a Florence - aelodau o Glybiau Sul Horeb a Sant Ioan ar Zoom gyda'r thema "Iesu yn Frenin".

**Atgofion am wylnos**
Roedd yn ddifyr clywed eitem ar y radio yn ddiweddar lle oedd Tom Evans yn cyfweld yr annwyl ddiweddar Miss Sali Jenkins, Garth oedd yn sôn amdani yn mynd i Wylnos – cyfweliad ddarlledwyd yn wreiddiol ar y rhaglen Gwin y gorffennol ym 1977.

Roedd yn cofio y gegin yn llawn o bobol, pawb mewn dillad du'n edrych yn syber iawn.Roedd ei mam-gu wedi ei siarso nad oedd i fynd yn agos i'r lle y noson honno ond roedd 'yn hogan fach go ddrygionus a go fentrus dyma benderfynu mynd yng nghysgod dwy oedd yn hŷn na fi.



Sali Jenkins -1993
Ar ôl derbyn ei Medal Gee ym 1990.
Llun: Hugh Jones

Ar ganol y bwrdd roedd basn i bawb daflu eu hatling i mewn ac yna ar ol cyrraedd adref a mam-gu glywed i mi fod roedd hi yn Ryfel Gartrefol'

Roedd y gair 'gwylnos' ar un adeg, yn gyfystyr â'r wake Wyddelig. Yn yr oes Gatholig, golygai yfed a miri mawr, ond yn ystod cyfnod y Methodistiaid cynnar a'r Piwritaniaid, daeth i olygu achlysur o weddïau a dwysder, er atal medd-dod a rhialtwch. Cyn y farwolaeth, â'r claf yn trafaelu angau, deuai dau neu dri o berthnasau neu gymdogion i'r tŷ i'w 'wylad' dros nos, er mwyn i'r teulu gael llonydd i orffwyso. Mae'n debyg fod hyn, yn ei adeg, yn gyfystyr â'r hyn y mae gofalwyr heddiw yn ei wneud.

Wedi'r farwolaeth, yn profi cymdeithas dda, byddai cymdogion yn cynorthwyo i dacluso fel byddai angen. O fewn cof(yn y 1950au) yn yr ardal hon, bu yna farwolaeth mew ty nad oedd wedi cael llawer o ofal, a dweud y lleiaf. Penderfynodd dwy gymdoges rymus ei fod yn gyfle da i wneud cymwynas drwy sgwrio, clirio a phapuro'r lle erbyn yr angladd!

Gosodid y corff yn ei arch yn yr ystafell orau neu barlwr a chedwid canhwyllau anghynn drwy'r nos. Byddai'r rhai oedd yn gwylad y corf yn gyfrifol am drin y pabwyr yn ol yr angen. Deilliai'r gofal hwn dros y corf o'r gredy byddai'n cadw

ysbrydion drwg i ffwrdd, ond yn fwy ymarferol efallai, roedd yn cadw'r llygod mawr i ffwrdd hefyd!

Byddai'r adeg hon, fel adeg priodas, yn gyfle i estyn rhoddion i'r teulu galarus, a thlawd efallai. Derbynient bres neu fwyd, a byddai'r pwyth yn cael ei ad-dalu pan ddeuai'r fath sefyllfa ar draws teuluoedd y rhoddwyr.

**Erwyd Howells**

Un sydd yn cofio clywed am Wylnos yw Vernon Jones, Gaerwen. Bow Street. Mae yn cofio clywed Ifan Jones, Tŷ'r Abbi, Clarach yn dweud am ei dad Morris B Jones, Cyneiniog, Tal-y-bont, yn cadw gwylnos yng Nghwm Tŷ Nant a chynnal gwasanaeth gyda'r teulu.a'r cymdogion. Gofynnwyd i Morris Jones ddechrau - agorodd y Beibl yn yr hanner gwyll a darllen yr hyn oedd o'i flaen - o'r Hen Destament a sylweddoli ei fod yn darllen darn am dor-priodas - oedd yn anaddas o dan yr amgylchiadau a bu tipyn o rincian dannedd wedi hynny gan un teulu oedd yn bresennol!!

Arferai tad Vernon John Jones fod yn asiant rhan amser i ystad Ledgard & Watts o Swydd Dyfnaint - hen deulu y Bonsalls, Fronfraith Llanbadarn Fawr oedd yn dirfeddianwyr yn ardal Cwmystwyth. Cofiai Vernon ei dad yn mynd un noson tua diwedd 40au y ganrif ddiwethaf i Ysbyty Heol y Gogledd i wylied un o'r tenantiaid oedd yn ddifrifol wael - sef Mr Morgans, Pentre-briwnant, Hafod, Ysbyty Ystwyth - tad Alun a Gwyn Morgans

Tybed oes darllenwyr eraill gydag atgofion o glywed aelodau y teulu yn sôn am Wylnos neu Wyliad?

**Pen blwydd arbennig**

Anfonwn ein cofion cynnes at Ellen Sheppard yng Nghil-y-coed, Sir Fynwy oedd yn dathlu pen blwydd arbennig ar Dachwedd 18. Mae hi a Dafydd yn tanysgrifio i'r *Tincer* i'w cadw mewn cysylltiad a digwyddiadau ym Mhenrhyn-coch.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Nia ac Irfon Richards Llanrhystud, ar enedigaeth merch – Alaw Gwawr Richards ar 31 Hydref; chwaer fach i Betsan ac wyres i Brian a Mary Thomas, Llys Myrddin a Richie a Megan Richards, Aberaeron.

**Awdur prysur**

Cyhoeddwyd cyfrol arall gan Nigel Humphreys. Teitl y ddiweddaraf - casgliad o 14 stori - yw *Beyond death and other ghost stories.* Fe'i cyhoeddwyd gan wasg Zagava yn Dusseldorf.



## Y Goeden Hud

Braf oedd gweld enwau Twm Arfon Williams a Ned Arthur Williams o Ysgol Penrhyn-coch ymhlith y tri deg a thri o arlunwyr ifainc (iawn) o bob rhan o Gymru, a gyfrannodd luniau i'r gyfrol *Y Goeden Hud*, a gyhoeddwyd gan Wasg Carreg Gwalch yn ddiweddar.

Syniad Sioned Erin Hughes yw'r gyfrol fach liwgar yma, ac fel gyda phopeth bron y dyddiau yma roedd e'n syniad gwahanol. Ar y we y daeth y grŵp "Llun a Stori" at ei gilydd gyda Sioned yn gwahodd plant i anfon lluniau wnaethon nhw yn ystod y Clo Mawr ati iddi hithau gael ysgrifennu storïau wedi eu seilio ar y lluniau hynny. A dyna a wnaed.

Cyn pen dim roedd hi'n cael ei hannog i'w cyhoeddi mewn llyfr yn ogytsal ag ar y we a dyna sut y daeth *Y Goeden Hud* i'r silffoedd. Mae yma dri deg ac un stori wedi eu seilio ar y cymeriadau neu'r digwyddiadau yn y lluniau a'r cyfan wedi eu rhoi at ei gilydd yn fywiog-ddeniadol a hawdd eu darllen.

Crempogau Nain yw teitl stori'r bechgyn o Benrhyn-coch ac maen nhw, fel ni i gyd, yn breuddwydio am y dydd y byddan nhw'n cael mynd i dŷ eu nain unwaith eto a mwynhau gwneud crempog gyda hi a'u bwyta wedyn! Yn y cyfamser daliwch ati i dynnu lluniau fechgyn!,

Gwasg Carreg Gwalch, £7.95.

**Cymdeithas y Penrhyn**

Llŷr Gwyn Lewis fu'n ein diddanu ar 21 Hydref a theitl ei sgwrs oedd Creu yn y Cyfnod Clo. Soniodd am effaith y cyfnod pryderus hwn arno, o deimlo ar brigau'r drain ond o fod eisiau gwneud y gorau o'r egni yr oedd hynny'n ei gynhyrchu.

Bu cystadlaethau'r Eisteddfod Amgen yn ysgogiad iddo ac enillodd y Stôl



Codwyd £22.50 gan Gylch Meithrin Trefeurig wrth i'r plant wisgo eu pyjamas i'r Cylch.



Plant Cylch Meithrin Trefeurig wedi gwisgo lan yn eu gwisgoedd Calan Gaeaf.



**Merched y Wawr**

Brynhawn Sul 15 Tachwedd aeth cangen Merched y Wawr Penrhyn-coch ar daith gerdded i Gogerddan a nol. Gobeithir cyfarfod eto am ginio Nadolig yn y Clwb nos Iau 10 Rhagfyr.

---

Ryddiaith am stori fer ar destun Gobaith. Ei gyhoeddiad diweddaraf yw pamffled o farddoniaeth dan y teitl *Rhwng Dwy Lein Drên* sydd wedi ei gyhoeddi'n breifat. Soniodd sut y caniataodd hynny iddo arbrofi gyda'r cynnwys a'r dyluniad gan arwain at gyhoeddi'r pamffled heb deitl ar y clawr.

Gellir gweld ei stori fuddugol yng *Nghyfansoddiadau Eisteddfod Amgen 2020* ac mae wedi cyfrannu hefyd at *Flodeugerdd 2020* (Cyhoeddiadau'r Stamp).

**Gwellhad buan**

Dymunwn wellhad buan i Mrs Margaret Griffiths, Ger-y-llan a'r Parchg Wyn Morris, Berwynfa.




Trydan
WILL DAVEY
Gosodiad Trydanol Ardystiedig
Sain, Gweledol & Data
CCTV
Arolygu & Phrofi
NYTHFA, PANTYCRUG, ABERYSTWYTH SY23 4EF
APPROVED CONTRACTOR
07581 173 684 / 01970 880593 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

## MADOG DEWI CEFN-LLWYD

**Cofiwch Dryweryn**
Ruth Jên gafoddy gwaith o adfer y darn graffiti enwog yn Llanrhystud ac fe wnaethpwyd hyn 55 mlynedd i'r diwrnod yr agorwyd Llyn Celyn fel Cronfa Ddŵr.



Llun: Marian Delyth

**Gwellhad buan**
Anfonwn ein dymuniadau gorau a gwellhad buan i Alwyn Hughes, Gellinebwen a Sylvia Powell, Nantybwla, y ddau wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Bron-glais

**Ymarfer dysgu**
Dymuniadau gorau i Lisa Evans, Fferm y Fronfraith, ar ei chwrs ymarfer dysgu ym Mhrifysgol Aberystwyth.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Aled a Louise Sherman, Gelli Fronfraith, ar enedigaeth merch fach, Sioned Elliw, chwaer i Caleb.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn gyda Lyn Evans, Deilyn, Cefn-llwyd ar golli cefnder, Mr Rees Lloyd o Lanafan.

**Aelwyd newydd**
Pob dymuniad da i Gwenno Davies, Llwyngwyddil, Cefn-llwyd yn ei chartref newydd yn Bow Street.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn gyda Neris a Tim Read, Ysgubor Newydd, Capel Madog, ar farwolaeth tad Neris – Ioan Gwalchmai - yng Nghricieth ar 4 Tachwedd.

**Seiclwr Rhyngwladol**
Gwych oedd gweld Stevie Williams yn cymryd rhan yn ei ras 'Grand Tour' gyntaf erioed sef y Vuelta yn Sbaen ac yntau wedi dychwelyd i seiclo'n gystadleuol wedi llawdriniaeth y llynedd. Cyhoeddwyd yn ddiweddar hefyd fod ei gontract gyda Tîm Bahrain McLaren yn cael ei ymestyn am ddwy flynedd ac mae'n edrych ymlaen bellach am 2021. Dymunwn yn dda iddo. Gellir dilyn y tîm ar eu cyfrif trydar @BahrainMcLaren neu ei gyfrif ef @stevierhys_96.

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL


**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Aled a Katie, Penffrwd Fach, ar enedigaeth eu mab ddechrau'r mis. Mae yna brysurdeb mawr yn yr ardal ar hyn o bryd a hyfryd yw cael croesawu cenhedlaeth arall i'n plith!

**Cydymdeimlo**
Trist iawn yw y newyddion y mis yma oherwydd i ni golli dau berson arbennig iawn a oedd wedi byw yn Aber-ffrwd am nifer o flynyddoedd. Ganol mis Hydref bu farw Meriel Morgan – gynt o Is y coed. Bu hi a'i diweddar wr Vivian yno am dros hanner can mlynedd, ac mi 'roedd y ddau yn uchel eu parch yn yr ardal. 'Roedd Meriel yn aelod ffyddlon iawn o Gapel Llwyn-y-groes ac yn organyddes am flynyddoedd. Roedd wrth ei bodd yn eistedd o flaen y piano ac mi roedd yn bleser i wrando arni bob amser. Anodd oedd meddwl oherwydd y covid 19 nad oedd yn bosib i glywed y miwsig ar ddydd ei hangladd yng Nghapel Bwlchgwynt Tregaron. Ar ôl colli ei phriod symudodd i fyw i Gapel Seion a bu yn hapus iawn yno yn y blynyddoedd olaf. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i mab Eilir, Jane a Gethin ei wyr. Bu y tri yn ofalus iawn ohoni yn ystod yr amser.

Dechrau Tachwedd daeth y newydd trist am farwolaeth Barry Matthews, Y Gamlyn, Aber-ffrwd. Daeth ef a Myra ei briod i ymddeol i Aber-ffrwd dros dri deg o flynyddoedd yn ôl ac mi roedd y ddau yn hapus iawn yn ein plith. Sefydlodd Bridfa Rheidol a bu ei geffylau gwedd yn llwyddiannus iawn yn sioeau lleol ac yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. Roedd yn arbennig o gefnogol i Sioe Capel Bangor, mi wnaeth dalu am ail wynebu y prif gwpan a mae pawb sydd wedi ei ennill dros y ddeng mlynedd ddiwethaf wedi derbyn cwpan bychan i gofio am yr achlysur. Sicrhaodd Barry fod yna gwpan bach i'r enillwyr am y ddeng mlynedd nesaf hefyd. Bu ef a Myra yn Lywyddion y Sioe rai blynyddoedd yn ôl a pleser mawr iddo oedd cael dewis yr anifail gorau ar y cae y diwrnod hwnnw. Cafodd lawer iawn o bleser drwy ddilyn sioeau yr ardal. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Myra a'r teulu a hefyd ei gymdogion yn Aber-ffrwd lle gwelir ei golli yn fawr.

**Genedigaeth**
Ar nodyn hapus hyfryd yw cael llongyfarch Catrin a Luke, Toedrhiwlas, ar enedigaeth merch fach, chwaer i Sam a wyres i Dick a Beryl Troedrhiwceir. Pob hwyl i'r teulu bach.

**Cyhoeddi cyfrol arall**
Llongyfarchiadau i Peter Lord, Gellifach, sydd wedi cyhoeddi llyfr newydd ddechrau y mis, sef *Looking Out – Welsh painting, social class and international context* (Parthian). Cafodd ei lawnsio yn rhithiol, profiad newydd a gwahanol iawn i Peter. Mae yn lyfr llawn lluniau ac yn anrheg Nadolig gwerth chweil.




# GOGINAN

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn gyda Brian a Liz Ashton a'u teuluoedd ar farwolaeth mam Brian a fu farw yn 93 oed yng Nghartref Tregerddan ar yr wythfed o Hydref.

**Gwellhad**
Gobeithio fod Bob Jackson, Eglwys, Goginan, yn gwella ar ôl ei lawdriniaeth diweddar. Dymuniadau gorau iddo.

**Newid aelwydydd**
Yn ystod y misoedd diwethaf fe fu ychydig o newidiadau yn y pentref.

Mae Lief a Kirsten Skot, Tanyrochr, wedi symud yn ôl i'w mamwlad Denmarc ar ôl treulio blynyddoedd yn gweithio yng Ngogerddan. Mae Adam ac Emma o Landeilo wedi symund i Tanyrochr. Pob lwc iddynt i gyd yn eu cartrefi newydd.

Teulu arall sydd wedi newid aelwyd dros dro yw James a Lucy Carver a'u merched Tami a Lydia, Delfryn. Cafodd James a Lucy gyfle o weithio fel athrawon am flwyddyn allan yn ysgol Montessori ym Mallorca. Gobeithio y byddant yn elwa o'r profiad.

**Bwlch Nant yr Arian**
Rydym ar agor unwaith eto! Bydd y caffi cludfwyd a'r toiledau tu fewn ar gael rhwng 11yb-4yp (toiledau ar gau 1:45-2:15yp). Caiff y barcutiaid eu bwydo am 2yp. Cadwch yn saff a gobeithio gweld chi'n fuan!



**BREEZE ym Mwlch Nant yr Arian**
Mae BREEZE yn grŵp beicio mynydd i fenywod yn unig, sy'n cynnal teithiau tywysedig rheolaidd ym Mwlch Nant yr Arian. Darllenwch sylwadau Pippa Boss a chysylltwch â hi i gael rhagor o fanylion ynglŷn â chymryd rhan – trwy Breeze ar Facebook neu Bwlch Nant yr Arian 0300 065 5470.

Helo, rwyf yn Bencampwr BREEZE ac yn dywysydd beicio mynydd, ac rwyf wedi dechrau cynnal teithiau beicio misol yn Nant yr Arian. Diben BREEZE yw annog menywod i ddod allan i feicio mewn grŵp cymdeithasol hamddenol, beth bynnag fo'u gallu o ran beicio, a chael hwyl.

Yn sicr dyna'r ydym wedi'i wneud hyd yma – beicio ar lwybrau Pendam, Summit a rhannau o Syfydrin. Mae gennyf griw rheolaidd o feicwyr sydd wedi magu hyder ac sydd wedi mwynhau beicio gyda'i gilydd yn fawr – gyda golygfeydd gwych a seibiau i gael byrbryd, a chinio haeddiannol yn y caffi! Edrychwn ymlaen at roi cynnig ar y llwybrau newydd yn fuan. Cynhelir ein taith nesaf ar 21 Gorffennaf.



15

# BOW STREET

**Pen blwydd hapus**
Llongyfarchiadau i Aled Llŷr Hywel o Rhydhir Isaf, sy'n dathlu ei ben blwydd yn 18 oed ar y 23 o Dachwedd.



**Diolch**
Carwn ddiolch i bawb am y geiriau caredig ar fy mhen blwydd yn ddiweddar
Elizabeth

**Pwy yw hwn?**
Pwy yw'r bachgen yma yn 7 oed yn ennill cwpan am adrodd? Mae newydd ddathlu ei ben blwydd yn 90 oed mis hyn



**Ffotograffydd ifanc**
Llongyfarchiadau i Osian King, gafodd ganmoliaeth uchel yng nghategori uwchradd Cystadleuaeth Ffotomarathon 2020 yn Aberystwyth. Y beirniad eleni oedd Kristina Banholzer.

**Cydymdeimlad Tregerddan**
Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Patrick Keegan, a fu farw yn frawychus o sydyn, ei wraig Janet, ei blant a'r wyrion a'r cysylltiadau eraill i gyd.

**Ymddeoliad**
Ymddeoliad hapus i Mrs Linda Jones, Bronwydd Villa, fu'n ofalwraig yng Nghartref Tregerddan am nifer fawr o flynyddoedd.

**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus yn 40 oed i Trystan Roberts (Siop Spar Bow Street).

**Diolch**
Dymuna'r Parchg Elwyn Pryse ddiolch o galon i bawb gofiodd am ei ben blwydd yn 90 yn ddiweddar ac wrth ddiolch mae'n nodi ei werthfarogiad diffuant o'r cyfeillgarwch a'r cynhesrwydd a deimlodd wrth dderbyn yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn.

**Cyfarchion**
Pen blwydd Hapus hwyr i Dai Evans, Trewylan a fuodd yn dathlu pen blwydd arbennig yn 70eg yn ddiweddar. Gobeithio ei fod wedi cael diwrnod arbennig. Cariad Mawr oddi wrth Auriel, Mark, Eluned, Ruth, Rachel a Breninxx

**Croeso**
Dymuniadau gorau i Gethin Howells, Dylan ac Edi, sydd wedi symud o Ben-llwyn i 94 Bryncastell.

**Betsan Jane**
Dyma fi Betsan Jane yr enw tu ôl i'r cwmni Betsan Jane Design & Alterations.

Merch ffarm o ardal Llangwyryfon ydw i yn wreiddiol, fe mynyches i ysgol gynradd Llanfarian ac yna ymlaen i Ysgol Gyfun Penweddig lle dechreuodd y blas ar y gwnio. Fe wnes i Tecstilau fel TGAU ac yna lefel A.

Cyn mynd ati i benderfynu beth oeddwn am wneud fel gyrfa fe weles i bod cwrs sylfaen mewn ffasiwn a dillad ei arddangos ar stondin y coleg. Roedd hyn yn brofiad unigryw i ferch o'r wlad ond mwynheuais y profiad yn fawr wrth gwrdd ag ambell dylunwyr ffasiwn fel



Gok Wan a Julien Macdonald.

Yn ystod y flwyddyn olaf o fy nghwrs gradd fe wnes i wir ystyried beth oeddwn eisiau ei wneud fel gyrfa, fe fues i yn ddigon ffodus o ennill ysgoloriaeth er cof am Miriam Briddon. Gyda'r arian hyn fe wnes i brynu caban pren i'w roi ar y fferm adref yn Llangwyryfon er mwyn i mi greu gweithdy yno ar gyfer dylunio ac altro dillad, yn ogystal a hyn dwi'n trwsio dillad a byrhau llenni.

Erbyn hyn mae'r busnes bellach yn 3 mlwydd oed a teimlaf fy mod i angen ehangu ychydig er mwyn bod yn fwy cyfleus ar gyfer fy nghwsmeriaid oedd yn agosach i Aberystwyth dyma fi wedi agor ail weithdy yn Bow Street yn Siriol studios. Dwi yma bob dydd Mercher o 9yb tan 5yh. Hoffwn ddiolch am yr holl gefnogaeth dwi wedi ei dderbyn ers i mi agor yr ail weithdy yn Bow Street. Mae wedi bod yn hyfryd i gwrdd â wynebau cyfarwydd a newydd.

**Newid bro**
Cyhoeddwyd fore Sul 15 Tachwedd y bydd y Parchedigion Alun a Becky Evans yn symud o ardal Bro Padarn (Genau'r-glyn) i blwy Bro Wyre (Llanilar, Llanrhystud) lle bydd Alun yn ficer. Dymuniadau gorau iddynt.

**Capel y Garn**
Oedfaon Bore Sul
Mae'r gweinidog, Dr Watcyn James, wedi parhau i gynnal oedfon fore Sul ar Zoom a braf yw gweld nifer y cyfranwyr yn cynyddu o Sul i Sul. Yr Athro John Tudno Williams fu'n gweinidogaethu ac yn gweinyddu'r cymun fore Sul Hydref 25ain o Hydref.
Y Gymdeithas Lenyddol
Daeth nifer dda i gyfarfod cyntaf y gymdeithas am eleni a gynhaliwyd ar Zoom nos Wener Hydref 16eg, gyda'r Athro Gruffudd Aled Williams, Cadeirydd y Gymdeithas yn cadeirio. Gwaith hawdd iddo, meddai, oedd cyflwyno'r siaradwraig, Sara Huws, gan ei bod, yn ogystal â bod yn un o blant yr eglwys, hefyd yn wyneb cyfarwydd ar y sgrin deledu yn cyflwyno'r rhaglen Waliau'n Siarad.
Dilynodd awr ddifyr dros ben gyda Sara'n olrhain ei hanes hi ei hun a thrwy hynny'n rhoi cipolwg i ni ar ddirgeledigaethau megis hanes celf – nid dim ond darluniau mewn fframau



Llongyfarchiadau i Hannah Miles, Crefftau Pennau, ar ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Hyfforddi a Datblygu Chwaraeon o Brifysgol De Cymru. Bwriad Hannah yw symud i Gaerdydd i weithio ym maes ymarfer corff gyda phlant ag anghenion arbennig. Yn y cyfamser, mae Hannah yn gweithio gyda'r teulu yng Nghrefftau Pennau.



ond yr hyn all fod ynghudd dan blastr ar walydd hen adeiladau. Aeth ymlaen wedyn i sôn am drefnu a dodrefnu arddangosfeydd ac amgueddfeydd – pa greiriau i'w dangos a beth a sut i'w harddangos – y math o beth fydd yn aros yn ein meddyliau y tro nesaf y cawn gyfle i ymweld â sefydliadau o'r fath. Daeth y sgwrs i ben gyda'i phrosiect cynhyrfus diweddaraf, sef ysbrydoli sefydlu amgueddfa newydd sbon ar hanes menywod ym mhen dwyreiniol Llundain. Gallai hon fod o ddiddordeb mawr i ni yng Ngheredigion gan fod cymaint o ferched ifainc o'r ardal, yn cynnwys dwy chwaer i fy Mam-gu i, wedi mynd i wasanaethu yn Llundain yn y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ac wedi aros yno, er nad yn y pen dwyreiniol efallai. Brysied y dydd y caf fynd i'w gweld a diolch o galon i Sara am awr llawn gwybodaeth.


GWASANAETH
TEIPIO

GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW

IONA BAILEY

PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580


# Triniaeth adweitheg newydd yn ardal Y Tincer – a chynnig arbennig!





Dyma lythyr gan Eiry Evans, 8 Maesafallen, Bow Street, sydd newydd gymhwyso'n therapydd adweitheg (reflexology). Llongyfarchiadau iddi, a dymuniadau gorau ar ei menter newydd.

"Sut y'ch chi wedi ymdopi dros y misoedd diwethaf anodd hyn? Ydych chi'n poeni am eich iechyd neu'n dioddef o iselder ysbryd? Yn gorfforol, yn feddyliol neu'n ysbrydol ry'n ni i gyd wedi gorfod ymdopi â newidiadau i'n ffordd o fyw. Mae fy ffordd innau o fyw wedi newid hefyd yn sgil fy hyfforddiant i fod yn therapydd adweitheg; bellach, dwi'n gallu cynnig triniaethau holistig a hynafol i chi yn fy nghartref yn Bow Street.

**Beth yw adweitheg?**

Triniaeth holistig yw adweitheg. Mae'r broses yn trin y traed er mwyn adfer lles a chydbwysedd y corff. Gwneir hyn trwy fwytho rhannau arbennig o'r traed – yr ardaloedd adwaith. Mae'r ardaloedd yma'n cyfateb i fannau eraill yn y corff, ac yn cysylltu â nhw. Trwy fwytho'r traed mae modd cysylltu a gweithio ar unrhyw ran o'r corff, ac wrth wneud hyn mae gallu'r corff i wella'i hunan yn cael ei annog a'i ysgogi. Y nod yn y pen draw yw creu homeostasis – ein cydbwysedd naturiol.

Mae'r driniaeth yn un holistig – rhaid edrych ar y person yn ei gyfanrwydd gan ystyried ei ffordd o fyw er mwyn adnabod triniaeth bwrpasol ac unigryw i'r person hwnnw. Os oes un rhan o'r corff yn anghytbwys bydd gweddill y corff yn dioddef o'r herwydd. Mae'r driniaeth yn eich annog i ymlacio'n llwyr trwy gyfrwng mwythiad pleserus o'r traed. Mae rhwydd hynt gan y broses, wedyn, i annog ac ysgogi'r corff i datblygu a storio egni er mwyn ymladd heintiau a salwch.

Mae llesâd drwy gyffwrdd a mwytho'r traed yn ymarfer hynafol tu hwnt. Canfuwyd rhes o luniau'n darlunio dyn yn derbyn triniaeth i'w draed ar feddrod meddyg yn yr Aifft, a'r bedd hwnnw dros ddwy fil o flynyddoedd oed. Mae cysylltiad y Tsieineaid ag adweitheg yn hŷn na hynny – hyd at 5,000 o flynyddoedd yn ôl.

Felly mae adweitheg yn fwythiad i'r traed?

Ydy, ond mae'n fwy na hynny. Mae gan therapydd y gallu i adnabod anghytbwysedd yn y corff ac wrth weithio ar ardaloedd penodol, mae'n galluogi'r corff i wella'i hunan. Dyw adweitheg, serch hynny, ddim yn honni i fod yn iachâd ynddi'i hun. Yn hytrach mae'n help llaw – yn gymorth i'r corff wella'i hunan.

**Beth yw manteision adweitheg?**

Mae'n lleihau tyndra a thensiwn trwy ymlacio'r corff. Mae'n debyg bod 75% o salwch dyn yn gysylltiedig â thyndra.

Er mwyn i'r corff weithio'n gywir mae angen egni. Ceir hwn trwy ocsigen a maetholion sy'n cylchdroi yn y gwaed. Mae triniaeth adweitheg yn annog ac ysgogi'r broses hon ac yn helpu'r celloedd a'r organau i weithio'n fwy effeithiol a llewyrchus.

Mae'n helpu gwaredu'r corff o wastraff ac yn sbarduno'r corff i wella'i hunan.

Fel arfer mae therapydd yn argymell pedwar apwyntiad cyn i adwaith cadarnhaol y corff amlygu'i hunan.

Ar gyfer darllenwyr *Y Tincer*, hoffwn gynnig 50% o ostyngiad ar bris y sesiwn gyntaf. Os hoffech roi cynnig arni, codwch y ffôn er mwyn trefnu amser a dyddiad sy'n siwtio. Os yw teithio o'ch cartref yn broblem, gallaf ymweld â chi. Byddwn yn cadw at ganllawiau Covid-19 Llywodraeth Cymru er ein diogelwch ni oll, lle bynnag fydd y sesiwn."

Mae croeso i chi gysylltu ag Eiry (01970 828782) unrhyw ddiwrnod o 1.30 pm ymlaen. eirymevans@hotmail.com



# Colofn BEN LAKE AS

Does dim dwywaith bod wynebu heriau'r cyfyngiadau clo yn mynd i fod dipyn anoddach i bob un ohonom a ninnau ar drothwy misoedd oer a thywyll y gaeaf.

Mae'n gyfnod arbennig o heriol i fusnesau bach lleol, ac er bod rhai mesurau cefnogi wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gefnogi busnesau drwy'r cyfyngiadau clo diweddaraf, rwy'n ofni na fydd y mesurau hynny'n ddigon i sicrhau cynaliadwyedd rhai busnesau a rhai sectorau'n benodol.

Dwi wedi cymryd pob cyfle yn San Steffan i drio darbwyllo'r Canghellor o'r angen i ymestyn ac ehangu'r cynllun presennol i weithwyr hunangyflogedig, gweithwyr tymhorol, a busnesau sydd wedi gweld cwymp sylweddol yn eu hincwm ers cyflwyno cyfyngiadau lleol yng Nghymru a Lloegr. Rwy'n mawr obeithio y bydd y Canghellor yn gwrando ac yn gweithredu ar y mater ar frys.

Peth arall mae'r pandemig byd-eang hwn wedi'i amlygu'n fwy nag erioed o'r blaen yw pwysigrwydd y gadwyn gyflenwi bwyd a diogelwch ein bwyd.

Mae'r Mesur Amaeth yn ddarn pwysig iawn o ddeddfwriaeth sydd wedi bod yn gwneud ei ffordd drwy Senedd San Steffan dros y misoedd diwethaf. Er bod polisi amaeth wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru, bydd Mesur Amaeth y DU yn cael effaith sylweddol ar y gadwyn gyflenwi bwyd ym mhob un o wledydd y DU pan ddaw'r ddeddfwriaeth i rym.

Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn dadlau ers amser maith eu bod am gymryd rheolaeth yn ôl, ac yn benodol y byddwn yn gallu pennu telerau ein masnach â'r byd ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Rydw innau wedi dadlau o'r cychwyn y dylai'r telerau hynny fod yn eithaf syml: dylai mynediad at y farchnad mewnforion i'r DU fod yn ddibynnol ar gwrdd â safonau cynhyrchu bwyd cyfatebol y DU. Heb y diogelwch hwn, credaf fod y Mesur Amaeth ar ei ffurf bresennol yn bygwth ffyniant ffermio yng Nghymru.

Er gwaetha'r canlyniad siomedig, dwi'n falch mod i wedi cael y cyfle i siarad yn y Siambr o blaid cyflwyno gwelliannau i'r Mesur fyddai nid yn unig yn diogelu safonau bwyd mewn cytundebau masnach, ond fyddai hefyd yn cryfhau gallu'r Senedd i graffu ar drafodaethau masnach y dyfodol. Byddaf yn parhau i frwydro dros ddyfodol ffermwyr Cymru wrth i'r Mesur Amaeth barhau i wneud ei ffordd drwy'r Senedd.

Rhwng popeth, gwn bod yna gyfnod heriol o'n blaenau ond drwy gydweithio, dyfalbarhau a chefnogi'n gilydd, rwy'n ffyddiog y dewn ni drwyddi.




# Lansio 'Stori Alex'



Yn seiliedig ar stori wir o fod yn ddisgybl uwchradd digartref, mae ***'Stori Alex'*** yn rhannu'r realiti arswydus sy'n wynebu sawl person ifanc yng Nghymru heddiw. Yn 2019, rhyddhaodd Shelter Cymru ffigyrau yn datgan bod 3,000 o bobl ifanc rhwng 16-24 wedi dod yn ddigartref. Y ffigyrau a'r straeon personol hyn a ysbrydolodd naw person ifanc o ardal Aberystwyth i gynhyrchu ffilm i godi ymwybyddiaeth ac addysgu eraill am ddigartrefedd.

***"Daeth y syniad gwreiddiol gan y bobl ifanc rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn ardal Aberystwyth. Mae ffilm yn offeryn gweledol gwych i bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol, ac roeddem yn awyddus i gynhyrchu darn pwerus. Roeddem yn ffodus bod CAVO wedi darparu'r cyllid a bod Arad Goch yn barod i rannu eu harbenigedd a'u helpu i gynhyrchu'r ffilm fer wych hon."*** Lowri, Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion.

Roedd naw disgybl o ysgolion Pen-glais a Phenweddig yn rhan o'r cynhyrchiad, gan gynnwys Llysgenhadon Cymunedol Aberystwyth:

Yn ystod y broses, bu'r bobl ifanc yn gweithio gyda Carwyn Blayney o Arad Goch i sgriptio, ffilmio a pherfformio yn y ffilm, gan ddysgu sgiliau gwerthfawr ar gyfer y dyfodol: ***"Roedd hi'n bleser gweithio ar y prosiect hwn gyda thîm mor wych. Fe wnaethant weithio'n galed iawn ac rwy'n teimlo'n falch o'r hyn y maent wedi'i gyflawni. Maent wedi delio â mater perthnasol a phwysig mewn ffordd sensitif."*** Carwyn Blayney, Arad Goch

Chwaraeir Alex gan Gruffydd Rhys Evans. Yn y ffilm, gwelwn Alex yn ddigartref yn 16 oed, yn delio â brwydrau 'syrffio soffa' yn ddyddiol ac yn jyglo hynny gydag addysg llawn amser, cyn cael cynnig cymorth a chefnogaeth hanfodol.

Sgriniwyd ***'Stori Alex'*** am y tro cyntaf yn Gymraeg a Saesneg mewn lansiad ar-lein ar **Dachwedd 3ydd**, gyda chyflwyniadau gan y cast a'r criw ifanc yn ogystal â sesiwn holi-ac-ateb fyw.

Dyma sylwadau dau o'r disgyblion oedd o ddalgylch y Tincer.

**Glain Llwyd**: Fe wnes i fwynhau mas draw yn gwneud y prosiect yma. Cefais y profiad i weithio mewn awyrgylch hollol newydd yn ogystal a dysgu am ddigartrefedd ymysg pobl ifanc.

**Sion James**: Roedd actio ar gyfer y camera yn brofiad newydd i beth dwi wedi wneud yn y gorffennol ond roeddwn i'n gyffrous i brofi math newydd o actio. Roedd yn glir bod y criw wedi gweithio'n galed iawn yn creu ffilm arbennig gyda neges holl bwysig, a rwy'n hapus fy mod wedi bod yn rhan ohono. Dwi'n gobeithio bydd neges y ffilm yn cyrraedd cynulleidfa fawr fel bod modd codi ymwybyddiaeth am ddigartrefedd cudd trwy stori go iawn person ifanc.

## Ysgol Penweddig



**Prif swyddogion Ysgol Penweddig**
Llongyfarchiadau i Ioan Morris, Rhianedd Owen a Rhys Tanat am gael eu dewis fel prif swyddogion. Llongyfarchiadau hefyd i'r dirprwyon, sef Elin Rattray, Ifan Davies a Mari Hefin. Braf oedd gweld disgyblion gyda gweledigaeth glir a syniadau sut i'w wireddu yn ystod y cyfnod anarferol hwn. Diolch hefyd i'r ymgeiswyr eraill - roedd y gystadleuaeth yn agos a gwerthfawrogwn eu syniadau a'u cyfraniad.

---

Yn ddiweddar cefais y fraint o gael fy mhenodi yn un o Brif Swyddogion Ysgol Gyfun Penweddig. Yn y rôl yma hoffwn alllu cynyddu uchelgais ymysg disgyblion a sicrhau eu bod yn teimlo'n falch o wisgo bathodyn yr ysgol. Credaf ei fod hefyd yn hanfodol i ni fel ysgol i adeiladu ar brofiad COVID-19 a'r Cyfnod Clo drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ac adnoddau ar-lein i gyfathrebu'n fwy effeithiol â'r gymuned ehangach. Dengys ein arferion newydd o bellhâu cymdeithasol a gwisgo mygydau ein bod yn gallu parchu ein gilydd a gofalu am iechyd a daioni eraill, ac fe hoffwn weld hyn yn parhau hyd yn oed wedi'r cyfnod anodd yma. Mae'r iaith Gymraeg hefyd yn hynod bwysig i mi, ac fe hoffwn weld disgyblion yn ymfalchio yn eu Cymreictod. Ffordd bwerus o wneud hyn yw i hyrwyddo diwylliant cyfoethog Cymraeg; o gerddoriaeth, i ffilmiau, i lenyddiaeth.
**Rhys Tanat, Fferm Glanfrêd**





*Trefnwyr Angladdau*
**C T Evans**
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
**01970 820013**
*gwyn@ct-evans.co.uk*
**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

# Ysgol Penrhyn-coch








**Helyntion Bl 1 a 2**

Fe wnaeth Bl1a2 fwynhau darllen un o straeon Rala Rwdins - sef 'Halibalŵ yr Hydref'. Bu'r plant yn brysur yn cwblhau heriau Hydrefol gwahanol o gerfio pwmpen yn y gegin fwd i ysgrifennu portread am wrach. Un o uchafbwyntiau'r hanner tymor oedd ymweliad â Choedwig Gogerddan lle bu'r plant yn chwilio am nodweddion Hydrefol, cafon nhw brynhawn i'w chofio!

Ffocws Stori y feipen enfawr, pawb yn medru ail adrodd y stori ar ffurf Pie Corbett gan ddefnyddio stumiau. Amryw o weithgareddau hwylus ac wedi newid y stori I gynnwys pwmpen yn lle y feipen.

**Dosbarth Derbyn**

Mae r plant wedi bod yn dysgu trwy Stori y feipen enfawr- mae'r disgyblion yn medru ail adrodd y stori ar ffurf Pie Corbett gan ddefnyddio stumiau.Maent wedi cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau hwylus ac wedi newid y stori i gynnwys pwmpen yn lle'r feipen.

**Dydd Bardd Plant Cymru**

Fe wnaeth Blwyddyn 2 fwynhau gweithdy rhithiol gyda Bardd Plant Cymru, sef Gruffudd Owen, fel rhan o ddathliadau Bardd Plant Cymru yn 20 oed. Bu'r plant yn ysgrifennu ansoddeiriau a chymariaethau yn ymwneud â'r Hydref.
Fel rhan o'r gweithdy cyd ysgrifennodd Blwyddyn 2 gerdd hyfryd am yr Hydref. Ar Ddydd Gwener yr wythnos honno, trefnwyd sesiwn rhithiol rhwng Blwyddyn 2 Ysgol Penrhyn-coch a Blwyddyn 2 Ysgol Treganna yng Nghaerdydd. Yn ystod y sesiwn darllenodd Blwyddyn 2 Ysgol Penrhyn-coch eu cerdd i blant Ysgol Treganna a fe ddarllenodd Blwyddyn 2 Treganna eu cerdd nhw. Braf oedd cysylltu gyda ysgol arall yng Nghymru a rhannu eu cerddi.

Cafodd Bl 3 a 4 hwyl yn meddwl am enwau plant y dosbarth oedd yn odli gyda'I gilydd!

**Braf oedd cymryd rhan mewn gweithdy rhithiol!**

Ar gyfer dathliadau pen blwydd Bardd Plant Cymru yn 20 oed eleni fe wnaeth bl. 5 a 6 mwynhau gwers rhithiol gan Gruffudd Owen, Bardd Plant Cymru. Ar ddiwedd yr wythnos cafwyd Parti Stomp. Da iawn i Cayden a Harri am ddod ar y brig yn y Stomp. I goroni'r cyfan, cawsom wybod ein bod ni'n un o bedair ysgol sydd wedi llwyddo i ennill gopi o gerdd Bardd Plant Cymru gyda llofnod y bardd presennol a holl gyn-feirdd Plant Cymru - anhygoel!

**Diwrnod Shwmae Su mae**

Cawsom wasanaeth ysgol gyfan i ddweud "Shwmae" wrth ein gilydd a gwrando ar glip fideos o negeseuon gan selebs Cymru. Yna, gêmau megis 'Gêm yr wyddor' ar lawr y dosbarth gan gofio prif neges y dydd o geisio ddechrau pob sgwrs yn Gymraeg. . Am hwyl a sbri!

Yn ddiweddar cafodd Bl. 5 a 6 y fraint o gael neges fideo o'r arlunydd Tomos Morgan yn trafod ei waith celf 'Castell Aberystwyth' ac ysbrydolodd ni i efelychu ei waith gan ddefnyddio cyfryngau gwahanol yn ystod ein gwersi celf. Diolch iddo am roi o'i amser.

Llwyddwyd i orffen ein murlun, teyrnged i hanes Owain Glyndŵr a bydd yn cael ei roi i fyny ar wal y castell allanol. Diolch i Miss Hall am ei chymorth i greu'r murlun.

Mwynhaodd ddisgyblion bl. 5 a 6 bore o ddarllen eu straeon arswyd Saesneg i'r dosbarth ar ddiwrnod olaf hanner tymor. Da iawn i Thomas am gofnodi'r stori mwyaf arswydus - yn llawn disgrifiadau da, yn newid goslef ei lais wrth ei ddarllen a defnydd gwych o hiwmor!

**Dathlu diwrnod T Llew Jones**

Mae'n braf cael dod i adnabod yr enwog T Llew Jones bob blwyddyn wrth i ni ddathlu a chofio ei waith arbennig. Mwynheuodd pawb wrando ar ddarnau o'r straeon poblogaidd yn ogystal a gwerthuso ambell gerdd. Gwylion ni glip hefyd o ŵyr T Llew Jones yn adrodd hanes bywyd ei dad-cu.

**PC Hanna Bl 5 a 6**

Cafodd Bl 5 a 6 sesiwn buddiol iawn dros Teams gyda PC Hanna am Seibr fwlio

**Llysgenhadon efydd**

Cafodd y criw yma hyfforddiant ar Teams ar sut i gynnal sesiynau o fewn yr ysgol i ddosarthiadau penodol. Dyma adroddiad Kak, Cari, Twm a Seren:
*Roedd yn rhaid i ni gael hyfforddiant dros Teams gyda Steffano.Yn gyntaf dywedodd pa mor bwysig oedd hi bod y plant yn twymo lan cyn cymryd rhan yn y chwaraeon. Hefyd holodd e i ni wneud gweithgareddau amser chwarae gyda ein dosbarthiadau ni. Rydyn ni wedi bod yn chwarae 'dodgeball'er mwyn cadw'n gynnes!*

**Cymry i'r Carn**

Llongyfarchiadau i aelodau Cymry i'r Carn ar gael eu dewis i fod yn rhan o'r criw. Bl. 5 a 6 Penrhyn - Gwen ac Emilie, CA2 Pen-llwyn - Emelia a Sara, Bl. 3 a 4 Penrhyn - Gruff a Channel, Bl. 1 a 2 Penrhyn - Lacey a Leo a CS Pen-llwyn - Ifan a Megan. Maent yn byrlymu gyda syniadau arbennig o dda.

**Noson Bingo**

Cafwyd noson hyfryd wrth chwarae Bingo Calan Gaeaf dros Zoom-diolch i'r criw PTA am drefnu. Miss Cory oedd yn cadw trefn ar bawb wrth alw'r rhifau a braf oedd gweld o leiaf 38 teulu ar y sgrin!
Diolch i Carys Garej Ty mawr am drefnu'r gwobrau o ddanteithion melys! Codwyd tua £350!! Ardderchog!

# Ysgol Pen-llwyn

**Cymry ydym ni!**
Mis llawn dathlu ein Cymreictod oedd mis Hydref, gyda ni'n dathlu diwrnod Shwmae Su'mae, Diwrnod T. Llew Jones a Phen blwydd Bardd Plant Cymru yn 20 oed a hynny i gyd o fewn yr un wythnos!

Bu disgyblion yr holl ysgol wrth eu bodd yn gwylio gweithdai rhithiol Gruffudd Owen, yn chwarae gydag enwau, ansoddeiriau, a chymariaethau i greu cerddi digrif ei hun!

Mwynhaodd disgyblion Dosbarth 1 sgwrs rithiol gydag Ysgol Llanddarog dros teams ar ddiwrnod Shwmae Su'mae gan ddysgu'r neges bwysig o ddechrau sgwrs yn y Gymraeg.

Mwynhaodd Blwyddyn 3 & 4 Darlleniad o *Na Nel* gan yr awdures Meleri Wyn James, a chyfle i holi ambell gwestiwn iddi.

Cyfleoedd gwych i'n disgyblion ddathlu a gwerthfawrogi eu hunaniaeth Gymreig.

**Hwyl yr Hydref**
Wedi ffarwelio â'r Haf, croesawodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yr Hydref yn eu gweithgareddau dosbarth. Mwynhaodd disgyblion a staff stori 'Rala Rwdins', Ffilm 'Wwsh ar y brws' a darganfod ac ymchwilio lliwiau'r Hydref, a thraddodiadau Calan Gaeaf.

Cafodd Blwyddyn 5&6 hwyl wrth ddefnyddio'r iaith Saesneg yn gelfydd i greu disgrifiadau o leoliadau arswydus a'u darllen ar goedd i weddill y dosbarth! Roedd croen gŵydd gan sawl un erbyn diwedd y wers!

Serch methu cael noson tân gwyllt arferol eleni, bu disgyblion dosbarth 2 wrthi yn dysgu sut i greu tân mewn modd cynaliadwy, ac yn coginio bara twsit a marshmallows ar y tân. Sgiliau goroesi gwych blant!

**Cwis Rhithiol CRhA**
Cafwyd hwyl fawr yng Nghwis rhithiol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon dros zoom. Gyda rowndiau ychydig yn wahanol yn cynnwys disgyblion a'i rhieni yn rasio o gwmpas y tŷ i hel rhestr siopa, i rownd ffotograffau o staff yr ysgol yn fabanod. Diolch i Mr Gwilym Morgan am gynnal y cwis a diolch i bawb gefnogodd. Codwyd £125 i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.

**Llysgenhadon Efydd**
Llongyfarchiadau i Isabel Cooper ac Amelia Williams ar eu penodiad fel Llysgenhadon Efydd yr ysgol eleni, gyda'r swydd bwysig o hyrwyddo cadw'n heini ar gyfer ein lles corfforol ac emosiynol. Mae'r ddwy wedi derbyn hyfforddiant gan Geredigion Actif ac wrthi yn barod yn cynnal gweithgareddau amser chwarae a Chinio gyda disgyblion. Da iawn ferched!


**Gweithio ar y cyd**
Am y tro cyntaf Eleni, rydym wedi ethol ein cynghorau ysgol ar draws y ddwy ysgol. Erbyn hyn mae'r holl bwyllgorau wedi cyfarfod ar teams, a chynlluniau ar waith ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg, datblygu'r ardal allanol, dathlu wythnos gwrth-fwlio a chodi arian ar gyfer plant mewn angen.

Rydym wrthi yn cynllunio ein Ffair Nadolig Rithiol ar y cyd rhwng Ysgol Pen-llwyn ac Ysgol Penrhyn-coch. Wrth ddysgu am fusnes ac entrepreneuriaeth a phwysigrwydd marchnata, cafwyd cystadleuaeth ar gyfer creu hysbyseb i'r Tincer ar gyfer y Ffair Rithiol sydd i'w weld ar tudalen 14! Llongyfarchiadau i Enfys Rowlands, Blwyddyn 6 Ysgol Pen-llwyn am gynllunio'r hysbyseb buddugol.









# Ysgol Rhydypennau



**Bywyd ysgol gwahanol**
Fel mae pawb yn ymwybodol, nid ydym mewn cyfnod cyffredin bellach oherwydd cyfyngiadau Covid. Felly er mwyn sicrhau profiadau a chyfleon dysgu i'r plant bu'n rhaid cyflwyno, cysylltu a chyfathrebu mewn dulliau gwahanol. Yn ystod y mis llwyddwyd i gynnal sesiynau rhithiol i blant blwyddyn 3 a 4 a phlant blwyddyn 5 a 6.

Cafodd plant blwyddyn 3 a 4 gyfle i fwynhau sesiwn holi ac ateb gyda'r awdures Meleri Wyn Jones. Hefyd, yn ystod y sesiwn cafodd y plant gyfle i wrando ar Meleri yn darllen darnau allan o'i nofel poblogaidd *Na Nel*. Hoffai'r ysgol ddiolch i Mrs Delyth Huws, Llyfrgell y dref am drefnu a chydlynu'r sesiwn.

Rhai diwrnodau'n ddiweddarach cysylltodd Ms Sara James, Ysgol Penweddig gyda'r ysgol er mwyn siarad gyda blwyddyn 5 a 6. Cafodd y plant gyfle i holi cwestiynau a chanfod gwybodaeth am yr ysgol gan fod cynifer helaeth o'n plant yn bwriadu trosglwyddo yno yn fuan iawn!

**Diolchgarwch**
Yn anffodus oherwydd y sefyllfa gyfredol nid oedd modd mynd allan i'r gymuned eleni i gynnal ein gwasanaeth Diolchgarwch arferol. Doedd hi ddim hyd yn oed yn bosib i'r plant a'r staff ymgynnull yn fewnol yn yr ysgol. Felly trefnwyd gwasanaeth arbennig ble trosglwyddodd plant blwyddyn 6 negeseuon pwysig am ddiolchgarwch trwy ddulliau technegol i weddill yr ysgol yn eu dosbarthiadau.

**Cystadleuaeth Dylunio.**
Bu plant blwyddyn 3,4,5 a 6 yn brysur yn ddiweddar yn creu dyluniadau ar gyfer cystadleuaeth dylunio delwedd i'r cwmni bwyd-'Castell Howell'. Mi fydd darlun yr enillydd yn ymddangos ar ochr loriau'r cwmni.

**Noson Rieni**
Doedd hi ddim yn bosib cynnal Noson Rieni arferol y tymor hwn; felly bu'r athrawon yn brysur yn ffonio pob rhiant yn unigol i gael sgwrs am gynnydd a datblygiad eu plentyn.

**Cardiau Nadolig**
Rydym wedi bod yn brysur yn dylunio cardiau yn barod ar gyfer y Nadolig. Mae'r archebion wedi cael eu danfon ac yr ydym yn awyddus i'w derbyn yn ôl cyn hir. Diolch i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am drefnu.

**Clwb Cant** Dyma ganlyniadau'r misoedd diwethaf.
*Medi*
1af - £25 - Aled Jenkins
2il - £15 - Bev Richards
3ydd - £10 - Gemma Bell
*Hydref*
1af - £25 - Ela Mai Lewis
2il - £15 - Noa Elias Jones
3ydd - £10 - Gwilym Jones
*Tachwedd*
1af -£25 - Manon Jones.
2il - £15 - Hayley Edwards
3ydd - £10 - Shan Breese





**Cronfa Eleri**
**Blwyddyn 2020 – dros £20,400 i'w rannu**
Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa

Ffurflen gais a manylion ar gael o: **cronfaeleri.cymru**
Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ
**Tel:** 01970 832551 **e-bost:** ymholiadau@cronfaeleri.com
**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 14eg 2021**

**Amcanion Cronfa Eleri**
*'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'*

## Ysgol Craig yr Wylfa

Mae'r plant i gyd wedi bod yn brysur dros ben ers dod 'nôl ym mis Medi. Mae plant y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn gwneud gwaith yn dilyn y thema 'Bwyd'. Hanner cyntaf y tymor, maent wedi bod yn dysgu'r stori, 'Y Bachgen Bach Toes' a gwneud gwaith sy'n deillio o'r stori, gan ddysgu am lwynogod. Yr ail hanner o'r tymor, maent am ddysgu a gwneud gwaith ar y stori, 'Y Feipen Enfawr'.

Mae plant Cyfnod Allweddol Dau wedi bod yn gwneud gwaith yn dilyn y thema, 'Archarwyr a Dihirod'. Hyd yn hyn, mae Cyfnod Allweddol Dau wedi bod yn edrych mewn i hanes archarwyr o Gymru megis Twm Siôn Cati a gweithgareddau 'Sul y Cofio' gan fod y milwyr yn y rhyfel yn archarwyr. Yn yr wythnosau nesaf, maent am greu archarwr neu ddihiryn ei hun.

**Diolchgarwch go wahanol!**

Gan ddilyn y rheolau Covid-19, yn anffodus nid oedd yn bosib cynnal cwrdd Diolchgarwch Ysgol gyfan eleni. Felly fe wnaeth pob dosbarth wasanaeth diolchgarwch ei hun yn eu 'swigod', ac yna wrth uwchlwytho'r gwasanaethau ar lein, roedd cyfle i bob dosbarth a'i rhieni weld y gwahanol wasanaethau yma.

**Calan Gaeaf**

Er mwyn dathlu Calan Gaeaf, cafodd y plant i gyd gyfle i wisgo i fyny ac i wneud gweithgareddau hwylus gyda phwmpenni.
















STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion

Monitro Diogelwch 24 Awr

Wedi ei wresogi

Bocses a 'bubblewrap' ar lein

www.boxshopsupplies.co.uk

Wales Removals

Ffôn: 01654 703592

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

www.midwalesstorage.co.uk

SIOP

SGIDIAU GWDIHW

Shan Jones

8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL

01970 617092

GWASANAETH

GOFAL TRAED


Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r

H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

RHYD-Y-PENNAU

COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

SIOP Y PETHE



Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion

01970 617120

Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan

www.siopypethe.cymru

# Tasg y Tincer



Diolch i bawb fu'n lliwio'r llun o'r pwmpenni mis diwethaf: Elis Wyn Jenkins, Penrhyn-coch; Seren Bates, Bow Street; Iestyn, Carian a Tirion Evans, Y Borth; Noah, Penrhyn-coch; Tesni Efa Davies, Llanilar; Steffan Evans, Goginan; Meia Elin Evans, Llanfihangel-y -Creuddyn; Mari Roberts, Penrhyn-coch; Jack Herron, Bow Street.

Mae'n amlwg fod yna arlunwyr o fri yn darllen y Dasg pob mis. Da iawn chi, a daliwch ati. Dy enw di, Maia, ddaeth allan o ganol y bwmpen calan gaeaf y tro hwn – llongyfarchiadau mawr!

Mae sawl peth i'w ddathlu yn ystod mis Tachwedd. Roedd 13 Tachwedd yn Ddiwrnod Caredigrwydd y Byd – diwrnod o fod yn arbennig o gyfeillgar, yn hael ac yn amyneddgar. Mae 19 Tachwedd yn ddiwrnod Toiled y Byd – mae'n hawdd anghofio nad oes gan bawb ddŵr glân yn eu cartrefi, na thŷ bach, ac oherwydd hyn mae rhai pobl yn mynd yn sâl iawn. Ond gallwn ni godi arian i'w helpu. Edrychwch ar www.worldtoiletday.info am syniadau.

Wyddoch chi bod 21 Tachwedd yn Ddiwrnod Helô y Byd? Bwriad y diwrnod yn cael pawb o bob iaith, hil a gwlad i ddweud 'helô' wrth ei gilydd. Beth am ddysgu dweud 'helô' mewn gwahanol ieithoedd wrth eich ffrindiau: Bonjour, ciao, calut, dia duit, hej, hey hoeijendagh, salud … edrychwch ar y we am rai eraill!

Ac yna ar 20 Tachwedd, mae'n Ddiwrnod Byd-eang y Plant, wedi'i drefnu gan y Cenhedloedd Unedig, er mwyn i ni gofio am eraill a cheisio gwneud ein byd yn lle gwell a mwy diogel i blant fyw ynddo. Mae mis Tachwedd, felly, yn fis i feddwl am eraill, ac i gynnig help llaw.

Beth am liwio'r llun o'r ffrindiau'n mwynhau yn y goedwig? Anfonwch eich llun drwy ebost (anwenmai@hotmail.co.uk) neu drwy'r post at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Rhagfyr 1af. Ta ta tan toc!

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD,
CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >